- (1) A person may establish guardianship of a monument or land under section 45 or join in executing a guardianship deed under that section, despite being a limited owner of the monument or land.
- (2) A person may grant an easement or other right over land which the Welsh Ministers are or any local authority is authorised to acquire under section 50, despite being a limited owner of the land.
- (3) A person may make a management agreement under section 51 with respect to a monument or land, despite being a limited owner of the monument or land.
- (4) For the purposes of this section –
  - (a) a body corporate or corporation sole is a limited owner of any land in which it has an interest, and
  - (b) any other persons are limited owners of land in which they have an interest if they hold that interest in any of the ways mentioned in subsection (5).
- (5) The ways of holding an interest in land referred to in subsection (4)(b) are –

- (a) fel tenant am oes neu berchennog statudol (o fewn yr ystyr a roddir i “tenant for life” a “statutory owner” gan Ddeddf Tir Setledig 1925 (p. 18));
  - (b) fel ymddiriedolwyr tir (o fewn yr ystyr a roddir i “trustees of land” gan Ddeddf Ymddiriedolaethau Tir a Phenodi Ymddiriedolwyr 1996 (p. 47));
  - (c) fel ymddiriedolwyr ar gyfer elusennau neu gomisiynwyr neu ymddiriedolwyr at ddibenion eglwysig, dibenion colegol neu ddibenion cyhoeddus eraill.
- (6) Pan fo person sy’n berchennog cyfyngedig ar unrhyw dir yn rhinwedd dal buddiant yn y tir yn unrhyw un neu ragor o’r ffyrdd a grybwyllir yn is-adran (5) yn cyflawni gweithred warcheidiaeth mewn perthynas â’r tir, mae’r weithred warcheidiaeth yn rhwymo pob perchennog olynol ar unrhyw ystad neu unrhyw fuddiant yn y tir.
- (7) Ond pan fo’r tir, ar ddyddiad y weithred, yn ddarostyngedig i unrhyw lyffethair nad oes modd i’r perchennog cyfyngedig ei gorgyrraedd wrth arfer unrhyw bwerau gwerthu neu reoli a roddir i’r perchennog cyfyngedig gan y gyfraith neu o dan unrhyw setliad neu unrhyw offeryn arall, nid yw’r weithred yn rhwymo’r llyffetheiriwr.
- (8) Pan fo cytundeb rheoli o dan adran 51 y mae perchennog cyfyngedig yn barti iddo yn darparu’n benodol fod y cytundeb yn ei gyfanrwydd neu unrhyw gyfyngiad, unrhyw waharddiad neu unrhyw rwymedigaeth sy’n codi o dan y cytundeb yn rhwymo olynwyr y perchennog cyfyngedig, mae is-adrannau (9) a (10) yn gymwys i’r cytundeb neu (yn ôl y digwydd) i’r cyfyngiad, y gwaharddiad neu’r rhwymedigaeth o dan sylw.
- (9) Pan fo person yn berchennog cyfyngedig yn rhinwedd dal buddiant yn unrhyw un neu ragor o’r ffyrdd a grybwyllir yn is-adran (5), mae’r cytundeb neu’r cyfyngiad, y gwaharddiad neu’r rhwymedigaeth yn rhwymo pob perchennog olynol ar unrhyw ystad neu unrhyw fuddiant yn y tir.
- (10) Ond pan fo’r tir, ar ddyddiad y cytundeb, yn ddarostyngedig i unrhyw lyffethair nad oes modd i’r perchennog cyfyngedig ei gorgyrraedd wrth arfer pwerau gwerthu neu reoli a roddir i’r perchennog cyfyngedig gan y gyfraith neu o dan unrhyw setliad neu unrhyw offeryn arall, nid yw’r cytundeb neu’r cyfyngiad, y gwaharddiad neu’r rhwymedigaeth yn rhwymo’r llyffetheiriwr.

*Trosglwyddo perchnogaeth neu warcheidiaeth a gwaredu tir*

### **53 Trosglwyddo henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig rhwng awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru**

- (1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn berchnogion neu’n warcheidwaid heneb neu dir cysylltiedig, cânt drosglwyddo perchnogaeth neu warcheidiaeth yr heneb honno neu’r tir hwnnw i unrhyw awdurdod lleol.
- (2) Pan fo awdurdod lleol yn berchennog neu’n warcheidwad heneb neu dir cysylltiedig, caiff drosglwyddo perchnogaeth neu warcheidiaeth yr heneb honno neu’r tir hwnnw –
  - (a) i Weinidogion Cymru, neu
  - (b) i awdurdod lleol arall.
- (3) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru nac awdurdod lleol drosglwyddo gwarcheidiaeth heneb neu dir cysylltiedig o dan yr adran hon heb gytundeb y personau y mae gweithrediad y weithred warcheidiaeth, am y tro, yn cael effaith uniongyrchol arnynt.



- (a) as tenant for life or statutory owner (within the meaning of the Settled Land Act 1925 (c. 18));
  - (b) as trustees of land (within the meaning of the Trusts of Land and Appointment of Trustees Act 1996 (c. 47));
  - (c) as trustees for charities or commissioners or trustees for ecclesiastical, collegiate or other public purposes.
- (6) Where a person who is a limited owner of any land by virtue of holding an interest in the land in any of the ways mentioned in subsection (5) executes a guardianship deed in relation to the land, the guardianship deed binds every successive owner of any estate or interest in the land.
- (7) But where the land is, at the date of the deed, subject to any incumbrance not capable of being overreached by the limited owner in exercise of any powers of sale or management conferred on the limited owner by law or under any settlement or other instrument, the deed does not bind the incumbrancer.
- (8) Where a management agreement under section 51 to which a limited owner is a party expressly provides that the agreement as a whole or any restriction, prohibition or obligation arising under the agreement binds the limited owner's successors, subsections (9) and (10) apply to the agreement or (as the case may be) to the restriction, prohibition or obligation in question.
- (9) Where a person is a limited owner by virtue of holding an interest in any of the ways mentioned in subsection (5), the agreement or restriction, prohibition or obligation binds every successive owner of any estate or interest in the land.
- (10) But where the land is, at the date of the agreement, subject to any incumbrance not capable of being overreached by the limited owner in exercise of powers of sale or management conferred on the limited owner by law or under any settlement or other instrument, the agreement or restriction, prohibition or obligation does not bind the incumbrancer.

*Transfer of ownership or guardianship and disposal of land*

**53 Transfer of monuments of special historic interest between local authorities and the Welsh Ministers**

- (1) Where the Welsh Ministers are the owners or guardians of a monument or associated land, they may transfer the ownership or guardianship of that monument or land to any local authority.
- (2) Where a local authority is the owner or guardian of a monument or associated land, it may transfer the ownership or guardianship of that monument or land –
  - (a) to the Welsh Ministers, or
  - (b) to another local authority.
- (3) But the Welsh Ministers or a local authority may not transfer the guardianship of a monument or associated land under this section without the agreement of the persons who are for the time being immediately affected by the operation of the guardianship deed.

- (4) At ddibenion is-adran (3) mae gweithrediad gweithred warcheidiaeth sy'n ymwneud â heneb neu dir yn cael effaith uniongyrchol ar berson os yw'r person wedi ei rwymo gan y weithred honno a bod yr heneb neu'r tir yn ei feddiant neu yn ei feddiannaeth.

#### **54 Gwaredu tir a gaffaelir o dan y Bennod hon**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru waredu unrhyw dir a gaffaelir ganddynt o dan adran 43, 44 neu 53.
- (2) Caiff awdurdod lleol waredu unrhyw dir a gaffaelir ganddo o dan adran 44 neu 53, ond rhaid iddo ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud hynny.
- (3) Pan fo'r tir a waredir o dan yr adran hon yn heneb neu'n cynnwys heneb, rhaid i'r gwarediad gael ei wneud ar delerau y mae'r person sy'n gwaredu'r tir yn ystyried y byddant yn sicrhau y caiff yr heneb ei diogelu.
- (4) Ond nid yw is-adran (3) yn gymwys os yw'r person sy'n gwaredu'r tir yn ystyried nad yw'n ymarferol diogelu'r heneb mwyach (pa un ai oherwydd y gost o'i diogelu neu fel arall).

*Mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan reolaeth gyhoeddus*

#### **55 Mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan reolaeth gyhoeddus**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ac unrhyw awdurdod lleol sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad i unrhyw heneb sydd o dan eu perchnogaeth neu warcheidiaeth neu ei berchnogaeth neu warcheidiaeth yn rhinwedd y Bennod hon; ond mae hyn yn ddarostyngedig—
- (a) i'r darpariaethau a ganlyn yn yr adran hon,
- (b) i unrhyw reoliadau neu is-ddeddfau a wneir o dan adran 56, ac
- (c) i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb sydd wedi ei chynnwys mewn unrhyw gytundeb sy'n ymwneud â'r heneb a wneir o dan adran 25 neu 51 (cytundebau partneriaethau henebion cofrestredig a chytundebau rheoli).
- (2) Mewn perthynas ag unrhyw heneb o dan warcheidiaeth, mae'r ddyletsywydd a osodir gan is-adran (1) hefyd yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y weithred warcheidiaeth.
- (3) Mae cyfeiriadau yn yr is-adrannau a ganlyn at heneb—
- (a) mewn perthynas â Gweinidogion Cymru, yn gyfeiriadau at heneb—
- (i) sydd o dan eu perchnogaeth neu eu gwarcheidiaeth yn rhinwedd y Bennod hon;
- (ii) sy'n cael ei rheolaethu neu ei rheoli ganddynt ac eithrio yn rhinwedd y Bennod hon;
- (b) mewn perthynas ag awdurdod lleol, yn gyfeiriadau at heneb sydd o dan ei berchnogaeth neu ei warcheidiaeth yn rhinwedd y Bennod hon.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol reolaethu amseroedd arferol myniediad y cyhoedd i heneb.

- (4) For the purposes of subsection (3) a person is immediately affected by the operation of a guardianship deed relating to a monument or land if the person is bound by that deed and is in possession or occupation of the monument or land.

#### **54 Disposal of land acquired under this Chapter**

- (1) The Welsh Ministers may dispose of any land acquired by them under section 43, 44 or 53.
- (2) A local authority may dispose of any land acquired by it under section 44 or 53, but must consult the Welsh Ministers before doing so.
- (3) Where the land disposed of under this section is or includes a monument, the disposal must be made on terms the person disposing of the land considers will ensure the preservation of the monument.
- (4) But subsection (3) does not apply if the person disposing of the land considers that it is no longer practicable to preserve the monument (whether because of the cost of preserving it or otherwise).

#### *Public access to monuments under public control*

#### **55 Public access to monuments under public control**

- (1) The Welsh Ministers and any local authority must ensure the public has access to any monument which is under their or its ownership or guardianship by virtue of this Chapter; but this is subject to—
- (a) the following provisions of this section,
  - (b) any regulations or byelaws made under section 56, and
  - (c) any provision to the contrary included in any agreement relating to the monument made under section 25 or 51 (scheduled monument partnership agreements and management agreements).
- (2) In relation to any monument under guardianship, the duty imposed by subsection (1) is also subject to any provision to the contrary in the guardianship deed.
- (3) References in the following subsections to a monument are—
- (a) in relation to the Welsh Ministers, to a monument which—
    - (i) is under their ownership or guardianship by virtue of this Chapter;
    - (ii) is under their control or management otherwise than by virtue of this Chapter;
  - (b) in relation to a local authority, to a monument which is under its ownership or guardianship by virtue of this Chapter.
- (4) The Welsh Ministers or a local authority may control the times of normal public access to a monument.

- (5) Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol atal y cyhoedd rhag cael mynediad i heneb, neu i unrhyw ran ohoni, am unrhyw gyfnod y maent neu y mae'n ystyried ei fod yn angenrheidiol –
  - (a) er lles diogelwch;
  - (b) ar gyfer ei chynnal a'i chadw neu ei diogelu;
  - (c) mewn cysylltiad â digwyddiadau a gynhelir neu weithgareddau eraill wedi eu trefnu a gyflawnir ynddi neu arni.
- (6) Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol hefyd osod cyfyngiadau a rheolaethau eraill ar fynediad y cyhoedd i heneb, neu i unrhyw ran ohoni, at ddiben a grybwyllir yn is-adran (5).
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol godi tâl ar y cyhoedd am fynediad i heneb.
- (8) Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol wrthod mynediad i berson i heneb os oes ganddynt neu ganddo reswm dros gredu bod y person yn debygol o wneud unrhyw beth sy'n debygol o ddifrodi'r heneb neu ei hamwynderau neu darfu ar y cyhoedd yn eu mwynhad ohoni.

**56 Pŵer i wneud rheoliadau ac is-ddeddfau mewn cysylltiad â mynediad y cyhoedd i henebion sydd o dan reolaeth gyhoeddus**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru reoleiddio mynediad y cyhoedd i unrhyw heneb sydd o dan eu perchnogaeth neu eu gwarcheidiaeth yn rhinwedd y Bennod hon drwy wneud rheoliadau sy'n gwahardd neu'n rheoleiddio unrhyw weithred neu unrhyw beth sy'n debygol o ddifrodi'r heneb neu ei hamwynderau neu darfu ar y cyhoedd yn eu mwynhad ohoni.
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) hefyd wneud darpariaeth mewn perthynas ag unrhyw heneb sy'n cael ei rheolaethu neu ei rheoli gan Weinidogion Cymru ac eithrio yn rhinwedd y Bennod hon.
- (3) Caiff awdurdod lleol reoleiddio mynediad y cyhoedd i unrhyw heneb sydd o dan ei berchnogaeth neu ei warcheidiaeth yn rhinwedd y Bennod hon drwy wneud is-ddeddfau sy'n gwahardd neu'n rheoleiddio unrhyw weithred neu unrhyw beth sy'n debygol o ddifrodi'r heneb neu ei hamwynderau neu darfu ar y cyhoedd yn eu mwynhad ohoni.
- (4) Mae person sy'n methu â chydymffurfio â darpariaeth a wneir gan reoliadau neu is-ddeddfau o dan yr adran hon yn cyflawni trosedd.
- (5) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (4) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.
- (6) Caiff is-ddeddfau a wneir o dan yr adran hon wneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â henebion gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o heneb.
- (7) Nid yw is-ddeddfau o dan yr adran hon yn cymryd effaith oni chânt eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru.
- (8) Caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r is-ddeddfau gydag addasiadau neu hebddynt.

- (5) The Welsh Ministers or a local authority may exclude the public from access to a monument, or to any part of it, for any period they consider or it considers necessary –
  - (a) in the interests of safety;
  - (b) for its maintenance or preservation;
  - (c) in connection with events held or other organised activities carried out in or on it.
- (6) The Welsh Ministers or a local authority may also impose other restrictions or controls on public access to a monument, or to any part of it, for a purpose mentioned in subsection (5).
- (7) The Welsh Ministers or a local authority may charge the public for admission to a monument.
- (8) The Welsh Ministers or a local authority may refuse a person admission to a monument if they have or it has reason to believe that the person is likely to do anything likely to damage the monument or its amenities or to disturb the public in their enjoyment of it.

**56 Power to make regulations and byelaws in connection with public access to monuments under public control**

- (1) The Welsh Ministers may regulate public access to any monument under their ownership or guardianship by virtue of this Chapter by making regulations that prohibit or regulate any act or thing likely to damage the monument or its amenities or disturb the public in their enjoyment of it.
- (2) Regulations under subsection (1) may also make provision in relation to any monument under the control or management of the Welsh Ministers otherwise than by virtue of this Chapter.
- (3) A local authority may regulate public access to any monument under its ownership or guardianship by virtue of this Chapter by making byelaws that prohibit or regulate any act or thing likely to damage the monument or its amenities or disturb the public in their enjoyment of it.
- (4) A person who fails to comply with provision made by regulations or byelaws under this section commits an offence.
- (5) A person guilty of an offence under subsection (4) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 2 on the standard scale.
- (6) Byelaws made under this section may make different provision in relation to different monuments or different descriptions of monument.
- (7) Byelaws under this section do not take effect unless they are confirmed by the Welsh Ministers.
- (8) The Welsh Ministers may confirm the byelaws with or without modifications.

**57 Darparu cyfleusterau i'r cyhoedd mewn cysylltiad â henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cyfleusterau, gwybodaeth a gwasanaethau eraill i'r cyhoedd ar gyfer darparu mynediad y cyhoedd neu mewn cysylltiad â darparu mynediad y cyhoedd –
  - (a) i unrhyw heneb sydd o dan eu perchnogaeth neu eu gwarcheidiaeth yn rhinwedd y Bennod hon, neu
  - (b) i unrhyw heneb sydd fel arall yn cael ei rheolaethu neu ei rheoli ganddynt.
- (2) Caiff awdurdod lleol ddarparu cyfleusterau, gwybodaeth a gwasanaethau eraill i'r cyhoedd ar gyfer darparu mynediad y cyhoedd i unrhyw heneb sydd o dan ei berchnogaeth neu ei warcheidiaeth yn rhinwedd y Bennod hon neu mewn cysylltiad â darparu mynediad o'r fath.
- (3) Caniateir i gyfleusterau a gwybodaeth neu wasanaethau eraill i'r cyhoedd gael eu darparu o dan yr adran hon yn yr heneb ei hun neu arni neu ar unrhyw dir sy'n gysylltiedig â'r heneb.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol godi tâl am ddefnyddio unrhyw gyfleuster neu unrhyw wasanaeth a ddarperir ganddynt neu ganddo o dan yr adran hon.

**PENNOD 7****CYFFREDINOL***Difrodi henebion***58 Y drosedd o ddifrodi henebion penodol o ddiddordeb hanesyddol arbennig**

- (1) Mae person sy'n dinistrio neu'n difrodi heneb warchoddedig heb esgus cyfreithlon yn euog o drosedd os oedd y person –
  - (a) yn gwybod neu os dylai'n rhesymol fod wedi gwybod bod yr heneb yn heneb warchoddedig, a
  - (b) yn bwriadu dinistrio neu ddifrodi'r heneb neu'n ddi-hid o ran a fyddai'r heneb yn cael ei difrodi neu ei dinistrio.
- (2) Yn is-adran (1) ystyr "heneb warchoddedig" yw –
  - (a) heneb gofrestredig, neu
  - (b) heneb sydd o dan berchnogaeth neu warcheidiaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn rhinwedd y Bennod hon.
- (3) Mae'r adran hon yn gymwys i unrhyw beth a wneir gan neu o dan awdurdod perchennog yr heneb, ac eithrio gweithred ar gyfer cyflawni gwaith a eithrir, fel y mae'n gymwys i unrhyw beth a wneir gan unrhyw berson arall.
- (4) Yn is-adran (3) ystyr "gwaith a eithrir" yw –
  - (a) gwaith sydd wedi ei awdurdodi o dan Bennod 3;
  - (b) gwaith y mae cydsyniad datblygu wedi ei roi ar ei gyfer o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29).
- (5) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored –

**57 Provision of facilities for the public in connection with monuments of special historic interest**

- (1) The Welsh Ministers may provide facilities, information and other services to the public for or in connection with providing public access –
  - (a) to any monument under their ownership or guardianship by virtue of this Chapter, or
  - (b) to any monument otherwise under their control or management.
- (2) A local authority may provide facilities, information and other services to the public for or in connection with providing public access to any monument under its ownership or guardianship by virtue of this Chapter.
- (3) Facilities and information or other services for the public may be provided under this section in or on the monument itself or on any land associated with the monument.
- (4) The Welsh Ministers or a local authority may charge for the use of any facility or service provided by them or it under this section.

**CHAPTER 7****GENERAL***Damage to monuments***58 Offence of damaging certain monuments of special historic interest**

- (1) A person who without lawful excuse destroys or damages a protected monument is guilty of an offence if the person –
  - (a) knew or ought reasonably to have known that it was a protected monument, and
  - (b) intended to destroy or damage the monument or was reckless as to whether the monument would be damaged or destroyed.
- (2) In subsection (1) “protected monument” means –
  - (a) a scheduled monument, or
  - (b) a monument under the ownership or guardianship of the Welsh Ministers or a local authority by virtue of this Chapter.
- (3) This section applies to anything done by or under the authority of the owner of the monument, other than an act for the carrying out of excepted works, as it applies to anything done by any other person.
- (4) In subsection (3) “excepted works” means –
  - (a) works authorised under Chapter 3;
  - (b) works for which development consent has been granted under the Planning Act 2008 (c. 29).
- (5) A person guilty of an offence under this section is liable –

- (a) ar euogfarn ddiannod, i ddirwy neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na'r terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu, neu'r ddau;
- (b) ar euogfarn ar ddiad, i ddirwy neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na 2 flynedd, neu'r ddau.

### 59 Gorchmynion digolledu am ddifrod i henebion sydd o dan warcheidiaeth

- (1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo perchennog neu unrhyw berson arall yn cael ei euogfarnu o drosedd sy'n ymwneud â difrod i heneb a oedd ar adeg y drosedd o dan warcheidiaeth Gweinidogion Cymru neu unrhyw awdurdod lleol yn rhinwedd Pennod 6.
- (2) Mae unrhyw orchymyn digolledu a wneir o dan Bennod 2 o Ran 7 o'r Cod Dedfrydu (gorchmynion digolledu yn erbyn personau a euogfarnwyd) mewn cysylltiad â'r difrod hwnnw i'w wneud o blaid Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol o dan sylw (yn ôl gofynion yr achos).

### 60 Cyfyngiadau ar y defnydd o ddatgelyddion metel

- (1) Yn yr adran hon –
  - ystyr “cydsyniad” (“*consent*”) yw cydsyniad ysgrifenedig Gweinidogion Cymru;
  - ystyr “datgelydd metel” (“*metal detector*”) yw unrhyw ddyfais sydd wedi ei dylunio neu ei haddasu i ganfod neu leoli unrhyw fetel neu unrhyw fwyn yn y ddaear;
  - ystyr “man gwarchodedig” (“*protected place*”) yw –
    - (a) safle unrhyw heneb gofrestredig, neu
    - (b) safle unrhyw heneb sydd o dan berchnogaeth neu warcheidiaeth Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn rhinwedd Pennod 6.
- (2) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn defnyddio datgelydd metel mewn man gwarchodedig heb gydsyniad i wneud hynny.
- (3) Mae person y rhoddwyd cydsyniad iddo i ddefnyddio datgelydd metel mewn man gwarchodedig yn cyflawni trosedd os yw'r person, wrth ddefnyddio'r datgelydd metel yn y man hwnnw, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw amod sydd ynghlwm wrth y cydsyniad.
- (4) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person, heb gydsyniad i wneud hynny, yn symud ymaith unrhyw wrthrych o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol y mae'r person wedi ei ddarganfod drwy ddefnyddio datgelydd metel mewn man gwarchodedig.
- (5) Mae person y rhoddwyd cydsyniad iddo i symud ymaith unrhyw wrthrych, neu i ymdrin fel arall ag unrhyw wrthrych, y mae'r person yn ei ddarganfod drwy ddefnyddio datgelydd metel mewn man gwarchodedig yn cyflawni trosedd os yw'r person, wrth symud ymaith y gwrthrych neu wrth ymdrin fel arall ag ef, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw amod sydd ynghlwm wrth y cydsyniad.
- (6) Mewn unrhyw achos am drosedd o dan is-adran (2) mae'n amddiffyniad i berson brofi iddo ddefnyddio'r datgelydd metel at ddiben ac eithrio i ganfod neu leoli gwrthrychau o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol.
- (7) Mewn unrhyw achos am drosedd o dan is-adran (2) neu (4) mae'n amddiffyniad i berson brofi –



- (a) on summary conviction, to a fine or imprisonment for a term not exceeding the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code, or both;
- (b) on conviction on indictment, to a fine or imprisonment for a term not exceeding 2 years, or both.

## 59 Compensation orders for damage to monuments under guardianship

- (1) Subsection (2) applies where an owner or any other person is convicted of an offence involving damage to a monument which was at the time of the offence under the guardianship of the Welsh Ministers or any local authority by virtue of Chapter 6.
- (2) Any compensation order made under Chapter 2 of Part 7 of the Sentencing Code (compensation orders against convicted persons) in respect of that damage is to be made in favour of the Welsh Ministers or the local authority in question (as the case may require).

## 60 Restrictions on use of metal detectors

- (1) In this section –
  - “consent” (“*cydsyniad*”) means the written consent of the Welsh Ministers;
  - “metal detector” (“*datgelydd metel*”) means any device designed or adapted for detecting or locating any metal or mineral in the ground;
  - “protected place” (“*man gwarchoddedig*”) means –
    - (a) the site of any scheduled monument, or
    - (b) the site of any monument under the ownership or guardianship of the Welsh Ministers or a local authority by virtue of Chapter 6.
- (2) A person commits an offence if the person uses a metal detector in a protected place without consent to do so.
- (3) A person given consent to use a metal detector in a protected place commits an offence if the person, in using the metal detector in that place, fails to comply with any condition attached to the consent.
- (4) A person commits an offence if the person, without consent to do so, removes any object of archaeological or historical interest which the person has discovered by the use of a metal detector in a protected place.
- (5) A person given consent to remove or otherwise deal with any object which the person discovers by the use of a metal detector in a protected place commits an offence if, in removing or otherwise dealing with the object, the person fails to comply with any condition attached to the consent.
- (6) In any proceedings for an offence under subsection (2) it is a defence for a person to prove that the person used the metal detector for a purpose other than detecting or locating objects of archaeological or historical interest.
- (7) In any proceedings for an offence under subsection (2) or (4) it is a defence for a person to prove that the person –

- (a) ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i ganfod a oedd y man lle y defnyddiwyd y datgelydd metel yn fan gwarchoddedig, a
  - (b) nad oedd yn gwybod, ac nad oedd ganddo reswm dros gredu, bod y man yn fan gwarchoddedig.
- (8) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (2) neu (3) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
- (9) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (4) neu (5) yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

*Gwaith brys ar gyfer diogelu heneb gofrestredig*

**61 Gwaith ar gyfer diogelu heneb gofrestredig mewn achosion brys**

- (1) Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod unrhyw waith y mae adran 11 (gofyniad i waith gael ei awdurdodi) yn gymwys iddo yn angenrheidiol ar frys i ddiogelu heneb gofrestredig, cânt fynd i safle'r heneb a chyflawni'r gwaith hwnnw.
- (2) Cyn arfer y pŵer yn is-adran (1) rhaid i Weinidogion Cymru roi o leiaf 7 niwrnod clir o rybudd yn ysgrifenedig i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr heneb.
- (3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cyflawni gwaith o dan yr adran hon ar gyfer atgyweirio unrhyw ddifrod i heneb gofrestredig –
- (a) mae unrhyw orchymyn digolledu a wnaed yn flaenorol mewn cysylltiad â'r difrod hwnnw o dan Bennod 2 o Ran 7 o'r Cod Dedfrydu o blaid unrhyw berson arall yn orfodadwy (i'r graddau na chydymffurfiwyd ag ef eisoes) fel pe bai wedi ei wneud o blaid Gweinidogion Cymru, a
  - (b) rhaid i unrhyw orchymyn o'r fath a wneir wedyn mewn cysylltiad â'r difrod hwnnw gael ei wneud o blaid Gweinidogion Cymru.
- (4) Pan fo gwaith yn cael ei gyflawni o dan yr adran hon, mae'r gwaith i'w drin fel pe bai'n waith awdurdodedig at ddibenion Pennod 3 (rheolaethu gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig).

*Gwariant a chynghor mewn perthynas â henebion*

**62 Gwariant ar gaffael a diogelu henebion o ddiddordeb hanesyddol arbennig etc.**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu cost caffael unrhyw heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig gan unrhyw berson, neu gyfrannu tuag at y gost honno.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru –
- (a) symud ymaith neu gynorthwyo i symud ymaith unrhyw heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig neu unrhyw ran o unrhyw heneb o'r fath i fan arall at ddiben ei diogelu;
  - (b) talu cost symud ymaith unrhyw heneb o'r fath neu unrhyw ran o unrhyw heneb o'r fath i fan arall at ddiben ei diogelu, neu gyfrannu tuag at y gost honno.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru, ar gais perchennog ar unrhyw heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig –
- (a) ymgymryd â gwaith i ddiogelu, cynnal a chadw a rheoli'r heneb neu gynorthwyo'r gwaith hwnnw;

- (a) had taken all reasonable steps to find out whether the place in which the metal detector was used was a protected place, and
  - (b) did not know, and had no reason to believe, that the place was a protected place.
- (8) A person guilty of an offence under subsection (2) or (3) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.
- (9) A person guilty of an offence under subsection (4) or (5) is liable on summary conviction, or on conviction on indictment, to a fine.

*Urgent works for preservation of scheduled monument*

**61 Works for preservation of scheduled monument in cases of urgency**

- (1) If it appears to the Welsh Ministers that any works to which section 11 (requirement for works to be authorised) applies are urgently necessary for the preservation of a scheduled monument, they may enter the site of the monument and carry out those works.
- (2) Before exercising the power in subsection (1) the Welsh Ministers must give at least 7 clear days' written notice to every owner and occupier of the monument.
- (3) Where the Welsh Ministers carry out works under this section for repairing any damage to a scheduled monument –
- (a) any compensation order previously made in respect of that damage under Chapter 2 of Part 7 of the Sentencing Code in favour of any other person is enforceable (so far as not already complied with) as if it had been made in favour of the Welsh Ministers, and
  - (b) any such order subsequently made in respect of that damage must be made in favour of the Welsh Ministers.
- (4) Where works are carried out under this section, the works are to be treated as authorised works for the purposes of Chapter 3 (control of works affecting scheduled monuments).

*Expenditure and advice in relation to monuments*

**62 Expenditure on acquisition and preservation of monuments of special historic interest etc.**

- (1) The Welsh Ministers may meet or contribute towards the cost of the acquisition by any person of any monument of special historic interest.
- (2) The Welsh Ministers may –
- (a) remove or assist in the removal of any monument of special historic interest or any part of any such monument to another place for the purpose of preserving it;
  - (b) meet or contribute towards the cost of the removal of any such monument or any part of any such monument to another place for the purpose of preserving it.
- (3) The Welsh Ministers may at the request of an owner of any monument of special historic interest –
- (a) undertake or assist in the preservation, maintenance and management of the monument;

- (b) talu am gost diogelu, cynnal a chadw a rheoli'r heneb, neu gyfrannu tuag at y gost honno.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru gyfrannu tuag at gost darparu cyfleusterau neu wasanaethau i'r cyhoedd gan awdurdod lleol o dan adran 57.
- (5) Caiff awdurdod lleol, ar gais perchennog ar unrhyw heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig yn ei ardal neu yng nghyffiniau ei ardal –
  - (a) ymgymryd â gwaith i ddiogelu, cynnal a chadw a rheoli'r heneb neu gynorthwyo'r gwaith hwnnw;
  - (b) talu am gost diogelu, cynnal a chadw a rheoli'r heneb, neu gyfrannu tuag at y gost honno.
- (6) Ni chaiff Gweinidogion Cymru nac awdurdod lleol fynd i wariant o dan yr adran hon mewn cysylltiad ag unrhyw adeilad neu unrhyw strwythur a feddiennir fel annedd gan unrhyw berson ac eithrio gofalwr yr adeilad neu'r strwythur neu aelod o deulu'r gofalwr.

### **63 Cyngor gan Weinidogion Cymru a goruchwylio gwaith ganddynt**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyngor ynghylch trin unrhyw heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru hefyd oruchwylio unrhyw waith mewn cysylltiad ag unrhyw heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig os ydynt yn cael eu gwahodd i wneud hynny gan berchennog ar yr heneb.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru oruchwylio gwaith mewn cysylltiad ag unrhyw heneb gofrestredig, os ydynt yn ystyried bod hynny yn ddoeth (pa un a yw perchennog yn gofyn iddynt wneud hynny ai peidio).
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru godi tâl am roi cyngor neu oruchwylio gwaith o dan yr adran hon.

### **64 Gwariant gan awdurdodau lleol ar ymchwiliad archaeolegol**

- (1) Os yw awdurdod lleol yn ystyried y gall unrhyw dir yn ei ardal neu yng nghyffiniau ei ardal gynnwys heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig, neu unrhyw beth arall o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol, caiff yr awdurdod –
  - (a) cynnal ymchwiliad archaeolegol o'r tir neu gynorthwyo mewn ymchwiliad o'r fath, neu
  - (b) talu cost ymchwiliad archaeolegol o'r tir neu gyfrannu tuag at y gost honno.
- (2) Caiff awdurdod lleol gyhoeddi canlyniadau unrhyw ymchwiliad archaeolegol a gynhelir ganddo, a gynorthwyr ganddo neu a gyllidir yn gyfan gwbl neu'n rhannol ganddo o dan yr adran hon.
- (3) Caniateir i'r pwerau yn is-adran (1) gael eu harfer mewn perthynas ag unrhyw dir sy'n ffurfio rhan o wely'r môr o fewn terfynau atfor y môr tiriogaethol sy'n gyfagos i Gymru.

- (b) meet or contribute towards the cost of the preservation, maintenance and management of the monument.
- (4) The Welsh Ministers may contribute towards the cost of the provision of facilities or services for the public by a local authority under section 57.
- (5) A local authority may at the request of an owner of any monument of special historic interest in or in the vicinity of its area –
  - (a) undertake or assist in the preservation, maintenance and management of the monument;
  - (b) meet or contribute towards the cost of the preservation, maintenance and management of the monument.
- (6) Neither the Welsh Ministers nor a local authority may incur expenditure under this section in connection with any building or structure which is occupied as a dwelling by any person other than the caretaker of the building or structure or a member of the caretaker's family.

**63 Advice and supervision of work by Welsh Ministers**

- (1) The Welsh Ministers may give advice about the treatment of any monument of special historic interest.
- (2) The Welsh Ministers may also supervise any work in connection with any monument of special historic interest if invited to do so by an owner of the monument.
- (3) The Welsh Ministers must supervise work in connection with any scheduled monument, if they consider it advisable (whether asked to do so by an owner or not).
- (4) The Welsh Ministers may charge for giving advice or supervising work under this section.

**64 Expenditure by local authorities on archaeological investigation**

- (1) If a local authority considers that any land in or in the vicinity of its area may contain a monument of special historic interest, or anything else of archaeological or historical interest, the authority may –
  - (a) carry out or assist in an archaeological investigation of the land, or
  - (b) meet or contribute towards the cost of an archaeological investigation of the land.
- (2) A local authority may publish the results of any archaeological investigation carried out, assisted or wholly or partly funded by it under this section.
- (3) The powers in subsection (1) may be exercised in relation to any land forming part of the sea bed within the seaward limits of the territorial sea adjacent to Wales.

*Pwerau mynediad***65 Pwerau mynediad i arolygu henebion cofrestredig etc.**

- (1) Caiff person awdurdodedig fynd ar unrhyw dir i arolygu heneb gofrestrredig yn y tir, arno neu odano i asesu ei chyflwr ac i asesu –
  - (a) a oes unrhyw waith sy'n effeithio ar yr heneb yn cael ei gyflawni yn groes i adran 11 (gofyniad i waith gael ei awdurdodi), neu
  - (b) a yw wedi cael ei difrodi neu'n debygol o gael ei difrodi (gan waith o'r fath neu fel arall).
- (2) Caiff person awdurdodedig fynd ar unrhyw dir i arolygu heneb gofrestrredig yn y tir, arno neu odano mewn cysylltiad –
  - (a) â chais am gydsyniad heneb gofrestrredig ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar yr heneb honno,
  - (b) â chynnig i addasu neu ddirymu cydsyniad heneb gofrestrredig ar gyfer unrhyw waith o'r fath, neu
  - (c) â chynnig i wneud gorchymyn o dan adran 27 (terfynu cytundeb partneriaeth heneb gofrestrredig neu ddarpariaeth mewn cytundeb).
- (3) Caiff person awdurdodedig fynd ar unrhyw dir i asesu a yw unrhyw waith y mae cydsyniad heneb gofrestrredig neu awdurdodiad o dan adran 12 yn ymwneud ag ef yn cael ei gyflawni neu wedi cael ei gyflawni yn unol â thelerau'r cydsyniad neu'r awdurdodiad (gan gynnwys unrhyw amodau).
- (4) Caiff person awdurdodedig fynd ar unrhyw dir y mae unrhyw waith y mae cydsyniad heneb gofrestrredig neu awdurdodiad o dan adran 12 yn ymwneud ag ef yn cael ei gyflawni arno er mwyn –
  - (a) arolygu'r tir (gan gynnwys unrhyw adeiladau neu unrhyw strwythurau eraill ar y tir) i gofnodi unrhyw faterion o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol, neu
  - (b) arsylwi ar y gwaith hwnnw yn cael ei gyflawni gyda golwg –
    - (i) ar archwilio a chofnodi unrhyw wrthrychau neu unrhyw ddeunydd arall o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol a ddarganfyddir yng nghwrs y gwaith hwnnw, a
    - (ii) ar gofnodi unrhyw faterion o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol a ddarganfyddir yng nghwrs y gwaith hwnnw.
- (5) Caiff person awdurdodedig fynd ar unrhyw dir y mae heneb gofrestrredig ynddo, arno neu odano i godi a chynnal ar safle'r heneb neu gerllaw iddo unrhyw hysbysfyddau ac unrhyw byst marcio y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn ddymunol i warchod yr heneb rhag difrod damweiniol neu fwriadol.
- (6) Ni chaniateir i'r pŵer yn is-adran (5) gael ei arfer heb gytundeb pob perchennog a phob meddiannydd ar y tir.
- (7) Yn yr adran hon ystyr "person awdurdodedig" yw person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru.

*Powers of entry***65 Powers of entry for inspection of scheduled monuments etc.**

- (1) An authorised person may enter any land to inspect a scheduled monument in, on or under the land to assess its condition and assess –
  - (a) whether any works affecting the monument are being carried out in breach of section 11 (requirement for works to be authorised), or
  - (b) whether it has been or is likely to be damaged (by such works or otherwise).
- (2) An authorised person may enter any land to inspect a scheduled monument in, on or under the land in connection with –
  - (a) an application for scheduled monument consent for works affecting that monument,
  - (b) a proposal to modify or revoke a scheduled monument consent for any such works, or
  - (c) a proposal to make an order under section 27 (termination of scheduled monument partnership agreement or provision of agreement).
- (3) An authorised person may enter any land to assess whether any works to which a scheduled monument consent or an authorisation under section 12 relates are or have been carried out in accordance with the terms of the consent or authorisation (including any conditions).
- (4) An authorised person may enter any land on which any works to which a scheduled monument consent or an authorisation under section 12 relates are being carried out to –
  - (a) inspect the land (including any buildings or other structures on the land) to record any matters of archaeological or historical interest, or
  - (b) observe the carrying out of those works with a view to –
    - (i) examining and recording any objects or other material of archaeological or historical interest discovered during the course of those works, and
    - (ii) recording any matters of archaeological or historical interest discovered during the course of those works.
- (5) An authorised person may enter any land in, on or under which a scheduled monument is situated to erect and maintain on or near the site of the monument any notice boards and marker posts the Welsh Ministers consider to be desirable to protect the monument from accidental or deliberate damage.
- (6) The power in subsection (5) may not be exercised without the agreement of every owner and occupier of the land.
- (7) In this section “authorised person” means a person authorised in writing by the Welsh Ministers.

**66 Pwerau mynediad sy'n ymwneud â gorfodi rheolaethau ar waith**

- (1) Caiff person awdurdodedig fynd ar unrhyw dir –
  - (a) i benderfynu a ddylai hysbysiad stop dros dro gael ei ddyroddi;
  - (b) i arddangos copi o hysbysiad stop dros dro yn unol ag adran 31 neu ei osod yn sownd at ddiben ei gyflwyno yn unol ag adran 206(5)(c);
  - (c) i asesu a gydymffurfiwyd â hysbysiad stop dros dro.
- (2) Caiff person awdurdodedig fynd ar unrhyw dir –
  - (a) i benderfynu a ddylai hysbysiad gorfodi gael ei ddyroddi;
  - (b) i osod hysbysiad gorfodi yn sownd at ddiben ei gyflwyno yn unol ag adran 206(5)(c);
  - (c) i asesu a gydymffurfiwyd â hysbysiad gorfodi.
- (3) Yn yr adran hon ystyr “person awdurdodedig” yw person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru.

**67 Pŵer mynediad i dir y credir ei fod yn cynnwys heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig**

- (1) Caiff person awdurdodedig fynd ar unrhyw dir y mae Gweinidogion Cymru yn gwybod neu y mae ganddynt reswm dros gredu bod heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig ynddo, arno neu odano er mwyn arolygu'r tir (gan gynnwys unrhyw adeilad neu unrhyw strwythur arall arno) gyda golwg ar gofnodi unrhyw faterion o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol.
- (2) Caiff person awdurdodedig sy'n mynd ar unrhyw dir wrth arfer y pŵer yn is-adran (1) gynnal cloddiadau yn y tir at ddibenion ymchwiliad archaeolegol.
- (3) Er mwyn cynnal cloddiad o dan is-adran (2) mae'n ofynnol cael cytundeb pob person y byddai'n ofynnol cael ei gytundeb i wneud y cloddiad ar wahân i'r adran hon.
- (4) Ond nid yw is-adran (3) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn gwybod neu os oes ganddynt reswm dros gredu bod heneb o ddiddordeb hanesyddol arbennig y maent yn gwybod neu'n credu ei bod yn y tir, arno neu odano mewn perygl, neu'n gallu bod mewn perygl, o fod ar fin cael ei difrodi neu ei dinistrio.
- (5) Yn yr adran hon ystyr “person awdurdodedig” yw person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru

**68 Pŵer mynediad i gynnal arolwg a phrisiad mewn cysylltiad â hawliad am ddiogollediad**

- (1) Caiff person awdurdodedig fynd ar unrhyw dir i gynnal arolwg ohono, neu i amcangyfrif ei werth, mewn cysylltiad â hawliad am ddiogollediad o dan y Rhan hon am unrhyw ddifrod i'r tir hwnnw neu unrhyw dir arall.
- (2) Yn yr adran hon ystyr “person awdurdodedig” yw –
  - (a) swyddog o Swyddfa Brisió Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, neu
  - (b) person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru.
- (3) Mae'r pŵer i gynnal arolwg o dir o dan yr adran hon yn cynnwys pŵer i chwilio a thurio i benderfynu natur yr isbridd neu i benderfynu a oes mwynau yn bresennol.



**66 Powers of entry relating to enforcement of controls on works**

- (1) An authorised person may enter any land to—
  - (a) determine whether a temporary stop notice should be issued;
  - (b) display a copy of a temporary stop notice in accordance with section 31 or attach it for the purpose of service in accordance with section 206(5)(c);
  - (c) assess whether a temporary stop notice has been complied with.
- (2) An authorised person may enter any land to—
  - (a) determine whether an enforcement notice should be issued;
  - (b) attach an enforcement notice for the purpose of service in accordance with section 206(5)(c);
  - (c) assess whether an enforcement notice has been complied with.
- (3) In this section “authorised person” means a person authorised in writing by the Welsh Ministers.

**67 Power of entry on land believed to contain monument of special historic interest**

- (1) An authorised person may enter any land in, on or under which the Welsh Ministers know or have reason to believe there is a monument of special historic interest to inspect the land (including any building or other structure on it) with a view to recording any matters of archaeological or historical interest.
- (2) An authorised person entering any land in exercise of the power in subsection (1) may carry out excavations in the land for the purposes of archaeological investigation.
- (3) An excavation under subsection (2) requires the agreement of every person whose agreement to the making of the excavation would be required apart from this section.
- (4) But subsection (3) does not apply if the Welsh Ministers know or have reason to believe that a monument of special historic interest they know or believe to be in, on or under the land is or may be at risk of imminent damage or destruction.
- (5) In this section “authorised person” means a person authorised in writing by the Welsh Ministers.

**68 Power of entry for survey and valuation in connection with claim for compensation**

- (1) An authorised person may enter any land to survey it, or estimate its value, in connection with a claim for compensation under this Part for any damage to that land or any other land.
- (2) In this section “authorised person” means—
  - (a) an officer of the Valuation Office of His Majesty’s Revenue and Customs, or
  - (b) a person authorised in writing by the Welsh Ministers.
- (3) The power to survey land under this section includes power to search and bore to determine the nature of the subsoil or the presence of minerals.

**69 Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad o dan y Rhan hon**

- (1) Caniateir i bŵer i fynd ar dir o dan y Rhan hon gael ei arfer ar unrhyw adeg resymol; ond nid yw'r is-adran hon yn gymwys i adran 65(5).
- (2) Ni chaiff person sydd wedi ei awdurdodi i fynd ar dir o dan y Rhan hon fynnu mynediad fel hawl i unrhyw dir sydd wedi ei feddiannu oni bai bod rhybudd o'r mynediad bwriadedig wedi ei roi i bob meddiannydd –
  - (a) pan mai diben y mynediad yw cyflawni unrhyw waith ar y tir (ac eithrio cloddiadau wrth arfer y pŵer o dan adran 67), o leiaf 14 o ddiwrnodau cyn diwrnod y mynediad bwriadedig, neu
  - (b) mewn unrhyw achos arall (gan gynnwys cloddiadau wrth arfer y pŵer o dan adran 67), o leiaf 24 awr cyn diwrnod y mynediad bwriadedig.
- (3) Nid yw is-adran (2) yn gymwys i fynediad o dan –
  - (a) adran 61 (ond gweler is-adran (2) o'r adran honno), na
  - (b) adran 66(1).
- (4) Ni chaiff person sydd wedi ei awdurdodi i fynd ar dir o dan y Rhan hon fynd i unrhyw adeilad nac unrhyw strwythur na rhan o adeilad na strwythur a feddiennir fel annedd heb gytundeb pob meddiannydd; ond nid yw'r is-adran hon yn gymwys i'r pŵer yn adran 68.
- (5) Rhaid i berson sydd wedi ei awdurdodi i fynd ar dir o dan y Rhan hon –
  - (a) os yw'n ofynnol iddo wneud hynny gan neu ar ran perchennog neu feddiannydd ar y tir, ddangos tystiolaeth o awdurdodiad y person a datgan diben mynd ar y tir cyn mynd arno;
  - (b) os yw'n ymadael â'r tir ar adeg pan nad oes perchennog neu feddiannydd yn bresennol, ei adael wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol rhag tresmaswyr ag yr oedd pan aeth y person arno.
- (6) Caiff person sy'n mynd ar dir wrth arfer pŵer mynediad o dan y Rhan hon fynd â chynhorthwy neu gyfarpar y bo ei angen yn rhesymol at y diben y mae'r mynediad yn ymwneud ag ef.
- (7) Pan fo person yn cynnal unrhyw ymchwiliad archaeolegol neu unrhyw archwiliad archaeolegol o dir wrth arfer pŵer mynediad o dan y Rhan hon, caiff y person gymryd unrhyw samplau y mae'n ymddangos i'r person y bo eu hangen yn rhesymol at ddiben dadansoddi archaeolegol a symud unrhyw samplau o'r fath ymaith.
- (8) Pan –
  - (a) bo pŵer mynediad o dan y Rhan hon yn arferadwy gan berson ("P1") mewn perthynas ag unrhyw dir, a
  - (b) bo gwaith yn cael ei gyflawni ar y tir gan berson arall ("P2"),
 rhaid i P1, wrth arfer y pŵer mynediad, gydymffurfio ag unrhyw ofynion rhesymol neu unrhyw amodau rhesymol a osodir gan P2 at ddiben atal ymyrryd â'r gwaith neu atal oedi i'r gwaith.
- (9) Nid yw is-adran (8) yn gymwys pan fo'r gwaith o dan sylw yn cael ei gyflawni yn groes i adran 11 (gofyniad i waith gael ei awdurdodi).

**69 Supplementary provision about powers of entry under this Part**

- (1) A power to enter land under this Part may be exercised at any reasonable time; but this subsection does not apply to section 65(5).
- (2) A person authorised to enter land under this Part may not demand admission as of right to any land which is occupied unless notice of the intended entry has been given to every occupier –
  - (a) where the purpose of the entry is to carry out any works on the land (other than excavations in exercise of the power under section 67), at least 14 days before the day of the intended entry, or
  - (b) other loss or damage (other than loss or damage consisting of depreciation of the value of an interest in land) arising out of anything done or omitted to be done before the agreement or provision took effect.
- (5) A claim for compensation under this section must be made in writing within 6 months beginning with the day the termination of the agreement or provision takes effect.
- (6) In subsection (2) “the planning authority” means—
  - (a) the planning authority that made the order under section 115, or
  - (b) if the order was made by the Welsh Ministers, the planning authority in whose area the listed building, or the part of a listed building, to which the order relates is situated.

- (7) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon, a chaiff y rheoliadau wneud diwygiadau canlyniadol i unrhyw ddarpariaeth arall yn y Ddeddf hon.

#### PENNOD 4

#### GORFODI RHEOLAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADEILADAU RHESTREDIG

##### *Gwaith anawdurdodedig a difrod bwriadol: troseddau*

#### 117 Y drosedd o gyflawni gwaith anawdurdodedig neu dorri amod mewn cydsyniad

- (1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person yn cyflawni gwaith, neu'n peri i waith gael ei gyflawni, mewn perthynas ag adeilad rhestredig yn groes i adran 88 (gofyniad i waith gael ei awdurdodi).
- (2) Mae person hefyd yn cyflawni trosedd os yw'r person –
  - (a) yn cyflawni gwaith, neu'n peri i waith gael ei gyflawni, mewn perthynas ag adeilad rhestredig, a
  - (b) yn methu â chydymffurfio ag amod y rhoddwyd cydsyniad adeilad rhestredig yn ddarostyngedig iddo ar gyfer y gwaith.
- (3) Nid yw is-adran (2) yn cyfyngu ar yr hyn a all fod yn drosedd o dan is-adran (1).
- (4) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan yr adran hon, mae'n amddiffyniad i'r person brofi –
  - (a) bod gwaith yn angenrheidiol ar frys er lles diogelwch neu iechyd neu ar gyfer diogelu'r adeilad,
  - (b) nad oedd yn ymarferol sicrhau diogelwch neu iechyd neu sicrhau bod yr adeilad yn cael ei ddiogelu drwy gyflawni gwaith atgyweirio neu waith i ategu neu gysgodu'r adeilad dros dro,
  - (c) bod y gwaith a gyflawnwyd wedi ei gyfyngu i isafswm y mesurau a oedd yn angenrheidiol ar unwaith, a
  - (d) i hysbysiad ysgrifenedig a oedd yn cyfiawnhau'n fanwl gyflawni'r gwaith gael ei roi i'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad yn ei ardal, neu yr oedd yr adeilad yn ei ardal, cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol.
- (5) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan yr adran hon mewn perthynas ag adeilad y rhoddir gwarchodaeth interim iddo –
  - (a) mae'n amddiffyniad i'r person brofi nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, bod y warchodaeth interim wedi ei rhoi, a
  - (b) pan fo'r amddiffyniad yn cael ei godi gan berson y dylai hysbysiad fod wedi cael ei gyflwyno iddo o dan adran 78(1), yr erlyniad sydd i brofi i'r hysbysiad gael ei gyflwyno i'r person.
- (6) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored –
  - (a) ar euogfarn ddiannod, i ddirwy neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na'r terfyn cymwys o dan adran 224(1A)(b) o'r Cod Dedfrydu, neu'r ddau;
  - (b) ar euogfarn ar ddiad, i ddirwy neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na 2 flynedd, neu'r ddau.



- (7) The Welsh Ministers may by regulations amend this section, and the regulations may make consequential amendments to any other provision of this Act.

#### CHAPTER 4

#### ENFORCEMENT OF CONTROLS RELATING TO LISTED BUILDINGS

##### *Unauthorised works and intentional damage: offences*

#### **117 Offence of carrying out unauthorised works or breaching condition of consent**

- (1) A person commits an offence if the person carries out, or causes to be carried out, works in relation to a listed building in breach of section 88 (requirement for works to be authorised).
- (2) A person also commits an offence if the person –
- (a) carries out, or causes to be carried out, works in relation to a listed building, and
  - (b) fails to comply with a condition subject to which listed building consent has been granted for the works.
- (3) Subsection (2) does not limit what may be an offence under subsection (1).
- (4) In proceedings against a person for an offence under this section, it is a defence for the person to prove that –
- (a) works were urgently necessary in the interests of safety or health or for the preservation of the building,
  - (b) it was not practicable to secure safety or health or the preservation of the building by carrying out works of repair or works to provide temporary support or shelter,
  - (c) the works carried out were limited to the minimum measures immediately necessary, and
  - (d) notice in writing justifying in detail the carrying out of the works was given to the planning authority in whose area the building is or was situated as soon as reasonably practicable.
- (5) In proceedings against a person for an offence under this section in relation to a building on which interim protection is conferred –
- (a) it is a defence for the person to prove that the person did not know, and could not reasonably have been expected to know, that the interim protection had been conferred, and
  - (b) where the defence is raised by a person on whom a notice should have been served under section 78(1), it is for the prosecution to prove that the notice was served on the person.
- (6) A person guilty of an offence under this section is liable –
- (a) on summary conviction, to a fine or imprisonment for a term not exceeding the applicable limit under section 224(1A)(b) of the Sentencing Code, or both;
  - (b) on conviction on indictment, to a fine or imprisonment for a term not exceeding 2 years, or both.

- (7) Wrth benderfynu swm unrhyw ddirwy sydd i'w gosod ar berson a euogfarnwyd o drosedd o dan yr adran hon, rhaid i'r llys roi sylw yn benodol i unrhyw fudd ariannol sydd wedi cronni, neu yr ymddengys ei fod yn debygol o gronni, i'r person o ganlyniad i'r drosedd.

### 118 Y drosedd o ddifrodi adeilad rhestredig yn fwriadol

- (1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person, gyda'r bwriad o achosi difrod i adeilad rhestredig, yn gwneud unrhyw beth neu'n caniatáu i unrhyw beth gael ei wneud –
- sy'n achosi difrod i'r adeilad neu sy'n debygol o arwain at ddifrod iddo, a
  - y byddai gan y person hawlogaeth i'w wneud neu ei ganiatáu oni bai am yr is-adran hon.
- (2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys –
- i waith y rhoddwyd cydsyniad adeilad rhestredig ar ei gyfer;
  - i unrhyw beth a wneir mewn perthynas â heneb gofrestrredig (ond gweler adran 58);
  - i waith mewn perthynas ag adeilad crefyddol esempt;
  - i unrhyw beth a awdurdoddir gan ganiatâd cynllunio a roddwyd neu a gaiff ei drin fel pe bai wedi ei roi ar gais o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8);
  - i unrhyw beth y rhoddwyd cydsyniad datblygu ar ei gyfer o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29).
- (3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
- (4) Os yw person a euogfarnwyd o drosedd o dan is-adran (1) yn methu â chymryd unrhyw gamau rhesymol sy'n angenrheidiol i atal difrod neu ddifrod pellach sy'n deillio o'r drosedd, mae'r person yn euog o drosedd bellach.
- (5) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (4) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy nag un rhan o ddeg o lefel 3 ar y raddfa safonol ar gyfer pob diwrnod y mae'r methiant yn parhau.

#### *Hysbysiadau stop dros dro*

### 119 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad stop dros dro

- (1) Caiff awdurdod cynllunio ddyroddi hysbysiad stop dros dro os yw'n ystyried –
- bod gwaith wedi cael ei gyflawni neu yn cael ei gyflawni mewn perthynas ag adeilad rhestredig yn ei ardal sy'n golygu torri adran 88 (gofyniad i waith gael ei awdurdodi) neu amod y rhoddwyd cydsyniad adeilad rhestredig yn ddarostyngedig iddo, a
  - y dylai'r gwaith (neu unrhyw ran o'r gwaith) gael ei stopio ar unwaith, gan roi sylw i'w effaith ar gymeriad yr adeilad fel un sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
- (2) Rhaid i hysbysiad stop dros dro –
- pennu'r gwaith y mae'n ymwneud ag ef,
  - gwahardd cyflawni'r gwaith (neu unrhyw ran o'r gwaith a bennir yn yr hysbysiad),

- (7) In determining the amount of any fine to be imposed on a person convicted of an offence under this section, the court must in particular have regard to any financial benefit which has accrued or appears likely to accrue to the person in consequence of the offence.

### **118 Offence of intentionally damaging listed building**

- (1) A person commits an offence if, with the intention of causing damage to a listed building, the person does anything or permits anything to be done –
- (a) which causes or is likely to result in damage to the building, and
  - (b) which the person would be entitled to do or permit were it not for this subsection.
- (2) Subsection (1) does not apply to –
- (a) works for which listed building consent has been granted;
  - (b) anything done in relation to a scheduled monument (but see section 58);
  - (c) works in relation to an exempt religious building;
  - (d) anything authorised by planning permission granted or treated as having been granted on an application under the Town and Country Planning Act 1990 (c. 8);
  - (e) anything for which development consent has been granted under the Planning Act 2008 (c. 29).
- (3) A person guilty of an offence under subsection (1) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.
- (4) If a person convicted of an offence under subsection (1) fails to take any reasonable steps that are necessary to prevent damage or further damage resulting from the offence, the person is guilty of a further offence.
- (5) A person guilty of an offence under subsection (4) is liable on summary conviction to a fine not exceeding one tenth of level 3 on the standard scale for each day on which the failure continues.

#### *Temporary stop notices*

### **119 Power of planning authority to issue temporary stop notice**

- (1) A planning authority may issue a temporary stop notice if it considers –
- (a) that works have been or are being carried out in relation to a listed building in its area which involve a breach of section 88 (requirement for works to be authorised) or of a condition subject to which listed building consent has been granted, and
  - (b) that the works (or any of them) ought to be stopped immediately, having regard to their effect on the character of the building as one of special architectural or historic interest.
- (2) A temporary stop notice must –
- (a) specify the works to which it relates,
  - (b) prohibit the carrying out of the works (or any of them specified in the notice),

- (c) nodi rhesymau'r awdurdod dros ddyroddi'r hysbysiad, a
  - (d) datgan effaith adran 121 (y drosedd o dorri hysbysiad stop dros dro).
- (3) Rhaid i'r awdurdod cynllunio arddangos copi o'r hysbysiad stop dros dro ar yr adeilad rhestredig y mae'n ymwneud ag ef; a rhaid i'r copi bennu'r dyddiad y caiff ei arddangos am y tro cyntaf.
- (4) Ond –
- (a) os nad yw'n rhesymol ymarferol arddangos copi o'r hysbysiad ar yr adeilad, neu
  - (b) os yw'r awdurdod yn ystyried y gallai arddangos copi o'r hysbysiad ar yr adeilad ei ddifrodi,
- caiff yr awdurdod, yn lle hynny, arddangos copi mewn lle amlwg mor agos i'r adeilad ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- (5) Caiff yr awdurdod gyflwyno copi o'r hysbysiad i unrhyw berson y mae'r awdurdod yn ystyried –
- (a) ei fod yn cyflawni'r gwaith y mae'r hysbysiad yn ei wahardd neu'n peri neu'n caniatáu iddo gael ei gyflawni,
  - (b) ei fod yn feddiannydd ar yr adeilad rhestredig y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, neu
  - (c) bod ganddo fuddiant yn yr adeilad.
- (6) Ni chaiff hysbysiad stop dros dro wahardd cyflawni gwaith o ddisgrifiad, neu o dan amgylchiadau, a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

## 120 Hyd etc. hysbysiad stop dros dro

- (1) Mae hysbysiad stop dros dro yn cymryd effaith pan arddangosir copi ohono yn unol ag adran 119 am y tro cyntaf.
- (2) Mae hysbysiad stop dros dro yn peidio â chael effaith –
- (a) ar ddiwedd 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod pan arddangosir y copi ohono yn unol ag adran 119 am y tro cyntaf, neu
  - (b) os yw'n pennu cyfnod byrrach sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.
- (3) Ond os yw'r awdurdod cynllunio yn tynnu'r hysbysiad yn ôl cyn diwedd y cyfnod y byddai fel arall yn cael effaith ar ei gyfer, mae'r hysbysiad yn peidio â chael effaith pan gaiff ei dynnu'n ôl.
- (4) Ni chaiff awdurdod cynllunio ddyroddi ail hysbysiad stop dros dro neu hysbysiad stop dros dro dilynol mewn perthynas â'r un gwaith oni bai ei fod, ers dyroddi'r hysbysiad blaenorol, wedi cymryd camau gorfodi eraill mewn perthynas â'r toriad y cyfeirir ato yn adran 119(1)(a).
- (5) Yn is-adran (4) mae'r cyfeiriad at gymryd camau gorfodi eraill yn gyfeiriad at –
- (a) dyroddi hysbysiad gorfodi o dan adran 123, neu
  - (b) cael gwaharddeb o dan adran 135.

- (c) set out the authority's reasons for issuing the notice, and
  - (d) state the effect of section 121 (offence of breaching temporary stop notice).
- (3) The planning authority must display a copy of the temporary stop notice on the listed building to which it relates; and the copy must specify the date on which it is first displayed.
- (4) But if—
- (a) it is not reasonably practicable to display a copy of the notice on the building, or
  - (b) the authority considers that displaying a copy of the notice on the building might damage it,
- the authority may instead display a copy in a prominent place as near to the building as is reasonably practicable.
- (5) The authority may serve a copy of the notice on any person the authority considers—
- (a) to be carrying out the works that the notice prohibits or causing or permitting them to be carried out,
  - (b) to be an occupier of the listed building to which the notice relates, or
  - (c) to have an interest in the building.
- (6) A temporary stop notice may not prohibit the carrying out of works of a description, or in circumstances, specified in regulations made by the Welsh Ministers.

## **120 Duration etc. of temporary stop notice**

- (1) A temporary stop notice takes effect when a copy of it is first displayed in accordance with section 119.
- (2) A temporary stop notice ceases to have effect—
- (a) at the end of 28 days beginning with the day the copy of it is first displayed in accordance with section 119, or
  - (b) if it specifies a shorter period beginning with that day, at the end of that period.
- (3) But if the planning authority withdraws the notice before the end of the period for which it would otherwise have effect, the notice ceases to have effect when it is withdrawn.
- (4) A planning authority may not issue a second or subsequent temporary stop notice in relation to the same works unless the authority has, since issuing the previous notice, taken other enforcement action in relation to the breach referred to in section 119(1)(a).
- (5) In subsection (4) the reference to taking other enforcement action is a reference to—
- (a) issuing an enforcement notice under section 123, or
  - (b) obtaining an injunction under section 135.

**121 Y drosedd o dorri hysbysiad stop dros dro**

- (1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person, ar unrhyw adeg pan fydd hysbysiad stop dros dro yn cael effaith, yn cyflawni gwaith sydd wedi ei wahardd gan yr hysbysiad neu'n peri neu'n caniatáu i waith o'r fath gael ei gyflawni.
- (2) Caniateir i berson gael ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon drwy gyfeirio at ddiwrnod neu at gyfnod hwy, a chaniateir iddo gael ei euogfarnu o fwy nag un drosedd mewn perthynas â'r un hysbysiad stop dros dro drwy gyfeirio at gyfnodau gwahanol.
- (3) Mewn achos yn erbyn person am drosedd o dan yr adran hon, mae'n amddiffyniad i'r person brofi nad oedd y person yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, am fodolaeth yr hysbysiad stop dros dro.
- (4) Mewn achos am drosedd o dan yr adran hon, mae'n amddiffyniad profi—
  - (a) bod gwaith i'r adeilad rhestredig yn angenrheidiol ar frys er lles diogelwch neu iechyd neu ar gyfer diogelu'r adeilad,
  - (b) nad oedd yn ymarferol sicrhau diogelwch neu iechyd neu sicrhau bod yr adeilad yn cael ei ddiogelu drwy gyflawni gwaith atgyweirio neu waith i ategu neu gysgod i'r adeilad dros dro,
  - (c) bod y gwaith a gyflawnwyd wedi ei gyfyngu i isafswm y mesurau a oedd yn angenrheidiol ar unwaith, a
  - (d) i hysbysiad ysgrifenedig a oedd yn cyfiawnhau'n fanwl gyflawni'r gwaith gael ei roi i'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad yn ei ardal, neu yr oedd yr adeilad yn ei ardal, cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol.
- (5) Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.
- (6) Wrth benderfynu swm y ddirwy, rhaid i'r llys roi sylw yn benodol i unrhyw fudd ariannol sydd wedi cronni, neu yr ymddengys ei fod yn debygol o gronni, i'r person o ganlyniad i'r drosedd.

**122 Digollediad am golled neu ddifrod a achosir gan hysbysiad stop dros dro**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan—
  - (a) na fo'r gwaith a bennir mewn hysbysiad stop dros dro, ar yr adeg y bydd yr hysbysiad yn cymryd effaith, yn golygu torri adran 88 (gofyniad i waith gael ei awdurdodi) neu amod y rhoddwyd cydsyniad adeilad rhestredig yn ddarostyngedig iddo, neu
  - (b) bo awdurdod cynllunio yn tynnu'n ôl hysbysiad stop dros dro ar ôl iddo gymryd effaith.
- (2) Nid yw'r adran hon yn gymwys yn rhinwedd is-adran (1)(b) pan—
  - (a) bo cydsyniad adeilad rhestredig wedi ei roi ar gyfer y gwaith a bennir yn yr hysbysiad stop dros dro ar ôl i'r hysbysiad gymryd effaith, a
  - (b) bo'r awdurdod cynllunio yn tynnu'r hysbysiad yn ôl ar ôl i'r cydsyniad hwnnw gael ei roi.

**121 Offence of breaching temporary stop notice**

- (1) A person commits an offence if, at any time when a temporary stop notice has effect, the person carries out works prohibited by the notice or causes or permits such works to be carried out.
- (2) A person may be charged with an offence under this section by reference to a day or a longer period, and may be convicted of more than one offence in relation to the same temporary stop notice by reference to different periods.
- (3) In proceedings against a person for an offence under this section, it is a defence for the person to prove that the person did not know, and could not reasonably have been expected to know, of the existence of the temporary stop notice.
- (4) In proceedings for an offence under this section, it is a defence to prove that –
  - (a) works to the listed building were urgently necessary in the interests of safety or health or for the preservation of the building,
  - (b) it was not practicable to secure safety or health or the preservation of the building by carrying out works of repair or works to provide temporary support or shelter,
  - (c) the works carried out were limited to the minimum measures immediately necessary, and
  - (d) notice in writing justifying in detail the carrying out of the works was given to the planning authority in whose area the building is or was situated as soon as reasonably practicable.
- (5) A person guilty of an offence under this section is liable on summary conviction, or on conviction on indictment, to a fine.
- (6) In determining the amount of the fine, the court must in particular have regard to any financial benefit which has accrued or appears likely to accrue to the person in consequence of the offence.

**122 Compensation for loss or damage caused by temporary stop notice**

- (1) This section applies where –
  - (a) the works specified in a temporary stop notice do not, at the time the notice takes effect, involve a breach of section 88 (requirement for works to be authorised) or of a condition subject to which listed building consent has been granted, or
  - (b) a planning authority withdraws a temporary stop notice after it has taken effect.
- (2) This section does not apply by virtue of subsection (1)(b) where –
  - (a) listed building consent is granted for the works specified in the temporary stop notice after the notice has taken effect, and
  - (b) the planning authority withdraws the notice after the grant of that consent.

- (3) Mae gan unrhyw berson a chanddo fuddiant yn yr adeilad rhestredig y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef ar yr adeg y mae'r hysbysiad yn cymryd effaith hawlogaeth, wrth wneud hawliad i'r awdurdod cynllunio, i gael ei ddigolledu gan yr awdurdod am unrhyw golled neu unrhyw ddifrod a ddioddefir gan y person y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i effaith yr hysbysiad.
- (4) Mae'r golled neu'r difrod y mae digollediad yn daladwy amdani neu amdano yn cynnwys unrhyw swm sy'n daladwy gan yr hawlydd mewn cysylltiad â thor contract a achosir drwy gymryd camau gweithredu sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r hysbysiad.
- (5) Nid oes digollediad yn daladwy o dan yr adran hon am golled neu ddifrod y gallai'r hawlydd fod wedi ei hosgoi neu ei osgoi—
  - (a) drwy ddarparu gwybodaeth yr oedd hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod cynllunio o dan adran 197 o'r Ddeddf hon neu adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (p. 57) yn ei gwneud yn ofynnol i'r hawlydd ei darparu, neu
  - (b) drwy gydweithredu â'r awdurdod cynllunio mewn unrhyw ffordd arall wrth ymateb i hysbysiad o'r fath.
- (6) Rhaid i hawliad am ddigollediad o dan yr adran hon gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 6 mis sy'n dechrau—
  - (a) mewn achos sy'n dod o fewn is-adran (1)(a) ond nid o fewn is-adran (1)(b), â'r diwrnod y mae'r hysbysiad stop dros dro yn cymryd effaith;
  - (b) mewn achos sy'n dod o fewn is-adran (1)(b), â'r diwrnod y mae'r hysbysiad wedi ei dynnu'n ôl.

*Hysbysiadau gorfodi a ddyroddir gan awdurdodau cynllunio*

### 123 Pŵer awdurdod cynllunio i ddyroddi hysbysiad gorfodi

- (1) Caiff awdurdod cynllunio ddyroddi hysbysiad gorfodi os yw'n ystyried—
  - (a) bod gwaith sy'n golygu torri adran 88 (gofyniad i waith gael ei awdurdodi) neu amod y rhoddwyd cydsyniad adeilad rhestredig yn ddarostyngedig iddo wedi cael ei gyflawni neu yn cael ei gyflawni mewn perthynas ag adeilad rhestredig yn ei ardal, a
  - (b) ei bod yn briodol dyroddi'r hysbysiad, gan roi sylw i effaith y gwaith ar gymeriad yr adeilad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
- (2) Rhaid i hysbysiad gorfodi—
  - (a) pennu'r toriad honedig, a
  - (b) ei gwneud yn ofynnol i gamau a bennir yn yr hysbysiad gael eu cymryd at un neu ragor o'r dibenion a nodir yn is-adran (3).
- (3) Y dibenion yw—
  - (a) adfer yr adeilad rhestredig i'w gyflwr cyn i'r toriad ddigwydd,
  - (b) os yw'r awdurdod cynllunio yn ystyried na fyddai gwaith adfer yn rhesymol ymarferol neu y byddai'n annymunol, cyflawni gwaith pellach i leddfu effaith y toriad, neu



- (3) Any person who has an interest in the listed building to which the notice relates at the time the notice takes effect is entitled, on making a claim to the planning authority, to be paid compensation by the authority for any loss or damage suffered by the person that is directly attributable to the effect of the notice.
- (4) The loss or damage for which compensation is payable includes any amount payable by the claimant in respect of a breach of contract caused by taking action necessary to comply with the notice.
- (5) No compensation is payable under this section for loss or damage that the claimant could have avoided by –
  - (a) providing information that the claimant was required to provide by a notice served by the planning authority under section 197 of this Act or section 16 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 (c. 57), or
  - (b) co-operating with the planning authority in any other way when responding to such a notice.
- (6) A claim for compensation under this section must be made in writing within 6 months beginning –
  - (a) in a case falling within subsection (1)(a) but not within subsection (1)(b), with the day the temporary stop notice takes effect;
  - (b) in a case falling within subsection (1)(b), with the day the notice is withdrawn.

*Enforcement notices issued by planning authorities*

**123 Power of planning authority to issue enforcement notice**

- (1) A planning authority may issue an enforcement notice if it considers –
  - (a) that works which involve a breach of section 88 (requirement for works to be authorised) or of a condition subject to which listed building consent has been granted have been or are being carried out in relation to a listed building in its area, and
  - (b) that it is appropriate to issue the notice, having regard to the effect of the works on the character of the building as a building of special architectural or historic interest.
- (2) An enforcement notice must –
  - (a) specify the alleged breach, and
  - (b) require steps specified in the notice to be taken for one or more of the purposes set out in subsection (3).
- (3) The purposes are –
  - (a) restoring the listed building to its condition before the breach took place,
  - (b) if the planning authority considers that restoration would not be reasonably practicable or would be undesirable, carrying out further works to alleviate the effect of the breach, or

- (c) rhoi'r adeilad yn y cyflwr y byddai wedi bod ynddo pe cydymffurfiwyd â thelerau unrhyw gydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer y gwaith y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef (gan gynnwys unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y cydsyniad).
- (4) Pan fo hysbysiad gorfodi yn gosod gofyniad o dan is-adran (3)(b), mae cydsyniad adeilad rhestredig i'w drin fel pe bai wedi ei roi ar gyfer unrhyw waith sydd wedi ei gyflawni yn unol â'r gofyniad.

#### **124 Cyflwyno hysbysiad gorfodi a'r hysbysiad yn cymryd effaith**

- (1) Rhaid i hysbysiad gorfodi bennu –
  - (a) y dyddiad y mae i gymryd effaith, a
  - (b) o fewn pa gyfnod y mae rhaid cymryd y camau a bennir ynddo.
- (2) Mae'r hysbysiad yn cymryd effaith ar ddechrau'r diwrnod a bennir o dan is-adran (1)(a); ond pan fo apêl yn cael ei gwneud yn erbyn yr hysbysiad o dan adran 127, mae hyn yn ddarostyngedig i adrannau 127(4)(a) a 184(5).
- (3) Caiff hysbysiad gorfodi bennu cyfnodau gwahanol ar gyfer cymryd camau gwahanol.
- (4) Pan fo awdurdod cynllunio yn dyroddi hysbysiad gorfodi, rhaid iddo gyflwyno copi o'r hysbysiad –
  - (a) i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr adeilad rhestredig y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, a
  - (b) i unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yn yr adeilad y mae'r awdurdod yn ystyried bod yr hysbysiad yn effeithio'n sylweddol arno.
- (5) Rhaid cyflwyno pob copi o'r hysbysiad –
  - (a) cyn diwedd 28 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad, a
  - (b) o leiaf 28 o ddiwrnodau cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y mae i gymryd effaith.

#### **125 Amrywio hysbysiad gorfodi a thynnu hysbysiad gorfodi yn ôl**

- (1) Pan fo awdurdod cynllunio wedi dyroddi hysbysiad gorfodi, caiff –
  - (a) tynnu'r hysbysiad yn ôl;
  - (b) hepgor neu lacio unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad, ac yn benodol estyn y cyfnod y mae'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd ynddo.
- (2) Caiff yr awdurdod arfer y pwerau yn is-adran (1) pa un a yw'r hysbysiad wedi cymryd effaith ai peidio.
- (3) Nid yw tynnu hysbysiad gorfodi yn ôl yn atal yr awdurdod cynllunio rhag dyroddi hysbysiad gorfodi arall.
- (4) Mae is-adran (5) yn gymwys pan oedd yr awdurdod cynllunio wedi cyflwyno copïau o'r hysbysiad gorfodi o dan adran 124(4) cyn arfer y pwerau yn is-adran (1).
- (5) Yn union ar ôl arfer unrhyw un o'r pwerau hynny, rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad ei fod wedi gwneud hynny i bob person y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi iddo (neu y byddai copi o'r hysbysiad yn cael ei gyflwyno iddo pe bai'n cael ei ailddyroddi).

- (c) putting the building in the condition it would have been in if the terms of any listed building consent for the works to which the notice relates (including any conditions attached to the consent) had been complied with.
- (4) Where an enforcement notice imposes a requirement under subsection (3)(b), listed building consent is to be treated as having been granted for any works carried out in compliance with the requirement.

#### **124 Service and taking effect of enforcement notice**

- (1) An enforcement notice must specify –
  - (a) the date on which it is to take effect, and
  - (b) the period within which the steps specified in it must be taken.
- (2) The notice takes effect at the beginning of the day specified under subsection (1)(a); but where an appeal is made against the notice under section 127, this is subject to sections 127(4)(a) and 184(5).
- (3) An enforcement notice may specify different periods for taking different steps.
- (4) Where a planning authority issues an enforcement notice, it must serve a copy of the notice on –
  - (a) every owner and occupier of the listed building to which the notice relates, and
  - (b) any other person who has an interest in the building which the authority considers to be materially affected by the notice.
- (5) Each copy of the notice must be served –
  - (a) before the end of 28 days after the day the notice is issued, and
  - (b) at least 28 days before the date specified in the notice as the date on which it is to take effect.

#### **125 Variation and withdrawal of enforcement notice**

- (1) Where a planning authority has issued an enforcement notice, it may –
  - (a) withdraw the notice;
  - (b) waive or relax any requirement of the notice, and in particular extend the period within which the notice requires any step to be taken.
- (2) The authority may exercise the powers in subsection (1) whether or not the notice has taken effect.
- (3) The withdrawal of an enforcement notice does not prevent the planning authority from issuing another enforcement notice.
- (4) Subsection (5) applies where the planning authority had served copies of the enforcement notice under section 124(4) before exercising the powers in subsection (1).
- (5) Immediately after exercising any of those powers, the authority must give notice that it has done so to every person who was served with a copy of the enforcement notice (or who would be served with a copy of the notice if it were reissued).

**126 Effaith rhoi cydsyniad adeilad rhestredig ar hysbysiad gorfodi**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys os rhoddir, ar ôl i hysbysiad gorfodi gael ei ddyroddi, gydsyniad adeilad rhestredig o dan adran 89(2) –
  - (a) sy'n awdurdodi unrhyw waith y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef sydd wedi ei gyflawni yn groes i adran 88, neu
  - (b) sy'n awdurdodi gwaith sy'n golygu torri amod y rhoddwyd cydsyniad blaenorol yn ddarostyngedig iddo.
- (2) Mae'r hysbysiad yn peidio â chael effaith (neu nid yw'n cymryd effaith) i'r graddau y mae'n –
  - (a) ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd sy'n anghyson â'r awdurdodiad i'r gwaith, neu
  - (b) ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r amod.
- (3) Nid yw'r ffaith bod hysbysiad gorfodi wedi peidio â chael effaith yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn rhinwedd yr adran hon yn effeithio ar atebolrwydd unrhyw berson am drosedd mewn cysylltiad â methiant blaenorol i gydymffurfio â'r hysbysiad (gweler adran 133).

*Apelau ac achosion eraill sy'n ymwneud â hysbysiadau gorfodi*

**127 Yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi**

- (1) Caiff y personau a ganlyn apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn hysbysiad gorfodi (pa un a oes copi o'r hysbysiad wedi ei gyflwyno iddynt ai peidio) –
  - (a) unrhyw berson a chanddo fuddiant yn yr adeilad rhestredig y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef;
  - (b) unrhyw berson sydd, yn rhinwedd trwydded –
    - (i) yn meddiannu'r adeilad ar y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad, a
    - (ii) yn parhau i'w feddiannu pan wneir yr apêl.
- (2) Caniateir gwneud apêl ar un neu ragor o'r seiliau a ganlyn –
  - (a) nad yw'r adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig;
  - (b) nad yw'r materion yr honnir eu bod yn torri adran 88 neu amod yn y cydsyniad adeilad rhestredig wedi digwydd;
  - (c) nad yw'r materion hynny (os digwyddasant) yn doriad o'r fath;
  - (d) bod yr amodau a ganlyn wedi eu bodloni –
    - (i) bod y gwaith i'r adeilad yn angenrheidiol ar frys er lles diogelwch neu iechyd neu ar gyfer diogelu'r adeilad,
    - (ii) nad oedd yn ymarferol sicrhau diogelwch neu iechyd neu sicrhau bod yr adeilad yn cael ei ddiogelu drwy gyflawni gwaith atgyweirio neu waith i ategu neu gysgod i'r adeilad dros dro, a
    - (iii) bod y gwaith a gyflawnwyd wedi ei gyfyngu i isafswm y mesurau a oedd yn angenrheidiol ar unwaith;

**126 Effect of granting listed building consent on enforcement notice**

- (1) This section applies if, after an enforcement notice has been issued, listed building consent is granted under section 89(2) –
  - (a) authorising any works to which the notice relates that have been carried out in breach of section 88, or
  - (b) authorising works which involve a breach of a condition subject to which a previous consent was granted.
- (2) The notice ceases to have effect (or does not take effect) so far as it –
  - (a) requires steps to be taken that are inconsistent with the authorisation of the works, or
  - (b) requires steps to be taken for complying with the condition.
- (3) The fact that an enforcement notice has wholly or partly ceased to have effect by virtue of this section does not affect the liability of any person for an offence in respect of a previous failure to comply with the notice (see section 133).

*Appeals and other proceedings relating to enforcement notices*

**127 Right to appeal against enforcement notice**

- (1) The following persons may appeal to the Welsh Ministers against an enforcement notice (whether or not a copy of the notice has been served on them) –
  - (a) any person who has an interest in the listed building to which the notice relates;
  - (b) any person who by virtue of a licence –
    - (i) occupies the building on the day the notice is issued, and
    - (ii) continues to occupy it when the appeal is made.
- (2) An appeal may be made on one or more of the following grounds –
  - (a) that the building is not of special architectural or historic interest;
  - (b) that the matters alleged to constitute a breach of section 88 or of a condition of listed building consent have not occurred;
  - (c) that those matters (if they occurred) do not constitute such a breach;
  - (d) that the following conditions are met –
    - (i) works to the building were urgently necessary in the interests of safety or health or for the preservation of the building,
    - (ii) it was not practicable to secure safety or health or the preservation of the building by carrying out works of repair or works to provide temporary support or shelter, and
    - (iii) the works carried out were limited to the minimum measures immediately necessary;

- (e) y dylai cydsyniad adeilad rhestredig gael ei roi ar gyfer y gwaith y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, neu y dylai unrhyw amod perthnasol yn y cydsyniad adeilad rhestredig a roddwyd ar gyfer y gwaith gael ei ddileu neu gael ei ddisodli gan amodau gwahanol;
  - (f) na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad i berson fel sy'n ofynnol gan adran 124;
  - (g) na fyddai camau y mae'r hysbysiad yn eu gwneud yn ofynnol o dan adran 123(3)(a) yn ateb y diben o adfer cymeriad yr adeilad;
  - (h) bod camau y mae'r hysbysiad yn eu gwneud yn ofynnol at unrhyw un neu ragor o'r dibenion a nodir yn adran 123(3) yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol at y diben o dan sylw;
  - (i) bod y cyfnod y mae'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd ynddo yn afresymol o fyr.
- (3) Rhaid i apêl gael ei gwneud drwy –
- (a) cyflwyno hysbysiad o apêl i Weinidogion Cymru cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad gorfodi fel y dyddiad y mae i gymryd effaith,
  - (b) anfon hysbysiad o apêl at Weinidogion Cymru mewn llythyr wedi ei gyfeirio'n briodol a'i ragdalau a'i bostio atynt ar adeg pan fyddai, yng nghwrs arferol y post, yn cael ei ddanfôn atynt cyn y dyddiad hwnnw, neu
  - (c) anfon hysbysiad o apêl at Weinidogion Cymru drwy ddefnyddio cyfathrebiadau electronig ar adeg pan fyddai, yng nghwrs arferol trosglwyddo, yn cael ei ddanfôn atynt cyn y dyddiad hwnnw.
- (4) Pan fo apêl wedi ei gwneud –
- (a) nid yw'r hysbysiad gorfodi yn cael effaith hyd nes y penderfynir yn derfynol ar yr apêl neu y tynnir yr apêl yn ôl; ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw orchymyn o dan adran 184(5);
  - (b) nid oes gan yr apelydd nac unrhyw berson arall hawlogaeth, mewn unrhyw achos arall a ddechreuodd ar ôl i'r apêl gael ei gwneud, i honni na chyflwynwyd yr hysbysiad gorfodi i'r apelydd yn unol ag adran 124.
- (5) Rhaid i apelydd gyflwyno datganiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ofynnol gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
- (6) Rhaid i'r apelydd gyflwyno'r datganiad naill ai –
- (a) gyda'r hysbysiad o apêl, neu
  - (b) o fewn y cyfnod a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
- (7) Pan fo apêl yn cael ei gwneud ar fwy nag un sail, os yw'r apelydd yn methu â rhoi gwybodaeth sy'n ofynnol o dan is-adran (5) mewn perthynas â sail o fewn y cyfnod a bennir o dan is-adran (6)(b), caiff Gweinidogion Cymru benderfynu'r apêl heb ystyried y sail honno.
- (8) Mae Pennod 2 o Ran 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer ystyried apelau o dan yr adran hon (gan gynnwys darpariaeth iddynt gael eu penderfynu gan bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru).

- (e) that listed building consent ought to be granted for the works to which the notice relates, or that any relevant condition of listed building consent which has been granted for the works ought to be removed or replaced with different conditions;
  - (f) that a copy of the notice was not served on a person as required by section 124;
  - (g) that steps which the notice requires under section 123(3)(a) would not serve the purpose of restoring the character of the building;
  - (h) that steps which the notice requires for any of the purposes set out in section 123(3) exceed what is necessary for the purpose in question;
  - (i) that the period within which the notice requires any step to be taken is unreasonably short.
- (3) An appeal must be made by –
- (a) serving a notice of appeal on the Welsh Ministers before the date specified in the enforcement notice as the date on which it is to take effect,
  - (b) sending a notice of appeal to the Welsh Ministers in a properly addressed and pre-paid letter posted to them at a time when, in the ordinary course of post, it would be delivered to them before that date, or
  - (c) sending a notice of appeal to the Welsh Ministers using electronic communications at a time when, in the ordinary course of transmission, it would be delivered to them before that date.
- (4) Where an appeal is made –
- (a) the enforcement notice has no effect until the appeal is finally determined or withdrawn; but this is subject to any order under section 184(5);
  - (b) neither the appellant nor any other person is entitled, in any other proceedings started after the making of the appeal, to claim that the enforcement notice was not served on the appellant in accordance with section 124.
- (5) An appellant must submit to the Welsh Ministers a statement in writing containing information required by regulations made by the Welsh Ministers.
- (6) The appellant must submit the statement either –
- (a) with the notice of appeal, or
  - (b) within the period specified in regulations made by the Welsh Ministers.
- (7) Where an appeal is made on more than one ground, if the appellant fails to give information required under subsection (5) in relation to a ground within the period specified under subsection (6)(b), the Welsh Ministers may determine the appeal without considering that ground.
- (8) Chapter 2 of Part 5 makes provision about the procedure for the consideration of appeals under this section (including provision for them to be determined by persons appointed by the Welsh Ministers).

**128 Penderfynu apêl**

- (1) Ar apêl o dan adran 127, caiff Gweinidogion Cymru –
- (a) cywiro unrhyw ddiffyg, unrhyw wall neu unrhyw gamddisgrifiad yn yr hysbysiad gorfodi y mae'r apêl yn ymwneud ag ef, neu
  - (b) amrywio telerau'r hysbysiad,
- os ydynt wedi eu bodloni na fydd y cywiriad neu'r amrywiad yn achosi anghyfiawnder i'r apelydd na'r awdurdod cynllunio.
- (2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu apêl –
- (a) os ydynt yn caniatáu'r apêl, cânt ddiddymu'r hysbysiad gorfodi;
  - (b) rhaid iddynt roi unrhyw gyfarwyddydau sy'n angenrheidiol i roi effaith i'w penderfyniad.
- (3) Wrth benderfynu apêl caiff Gweinidogion Cymru –
- (a) rhoi cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw ran o'r gwaith y mae'r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef;
  - (b) dileu unrhyw amod y rhoddwyd cydsyniad adeilad rhestredig yn ddarostyngedig iddo a rhoi unrhyw amod arall yn ei le, pa un a yw'n fwy neu'n llai beichus;
  - (c) arfer eu pŵer o dan adran 76 i ddadrestu'r adeilad y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.
- (4) Pan fyddai fel arall yn sail dros benderfynu caniatáu apêl na chyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi i berson yr oedd yn ofynnol cyflwyno copi iddo, caiff Gweinidogion Cymru anwybyddu'r ffaith honno os nad yw'r methiant wedi cael effaith andwyol sylweddol ar yr apelydd na'r person hwnnw.
- (5) Caiff Gweinidogion Cymru –
- (a) gwrthod apêl os yw'r apelydd yn methu â chydymffurfio ag adran 127(6);
  - (b) caniatáu apêl a diddymu'r hysbysiad gorfodi os yw'r awdurdod cynllunio yn methu, o fewn y cyfnod a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 175, â chydymffurfio â gofyniad yn y rheoliadau –
    - (i) i gyflwyno datganiad o'r sylwadau y mae'r awdurdod yn cynnig eu gwneud ar apêl sy'n cynnwys y materion a bennir yn y rheoliadau, neu
    - (ii) i anfon at Weinidogion Cymru gopi o'r hysbysiad gorfodi a rhestr o'r personau y cyflwynwyd copïau iddynt.
- (6) Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ar yr apêl (gan gynnwys unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud ag arfer y pwerau a roddir gan is-adran (3)) yn derfynol.

**129 Y seiliau dros apelio i beidio â chael eu codi mewn achosion eraill**

Ni chaniateir cwestiynu dilysrwydd hysbysiad gorfodi, ar unrhyw un neu ragor o'r seiliau y caniateir gwneud apêl arnynt o dan adran 127, mewn unrhyw achos ac eithrio apêl o dan yr adran honno.



**128 Determination of appeal**

- (1) On an appeal under section 127, the Welsh Ministers may –
  - (a) correct any defect, error or misdescription in the enforcement notice to which the appeal relates, or
  - (b) vary the terms of the notice,if they are satisfied that the correction or variation will not cause injustice to the appellant or the planning authority.
- (2) Where the Welsh Ministers determine an appeal –
  - (a) if they allow the appeal, they may quash the enforcement notice;
  - (b) they must give any directions necessary to give effect to their determination.
- (3) On the determination of an appeal the Welsh Ministers may –
  - (a) grant listed building consent for any of the works to which the enforcement notice relates;
  - (b) remove any condition subject to which listed building consent was granted and replace it with any other condition, whether more or less onerous;
  - (c) exercise their power under section 76 to de-list the building to which the appeal relates.
- (4) Where it would otherwise be a ground for determining to allow an appeal that a copy of the enforcement notice was not served on a person who was required to be served, the Welsh Ministers may ignore that fact if neither the appellant nor that person has been substantially prejudiced by the failure.
- (5) The Welsh Ministers may –
  - (a) dismiss an appeal if the appellant fails to comply with section 127(6);
  - (b) allow an appeal and quash the enforcement notice if the planning authority fails, within the period specified in regulations made under section 175, to comply with a requirement of the regulations to –
    - (i) submit a statement of the representations the authority proposes to make on the appeal which includes the matters specified in the regulations, or
    - (ii) send the Welsh Ministers a copy of the enforcement notice and a list of the persons on whom copies of it were served.
- (6) The decision of the Welsh Ministers on the appeal (including any decision relating to the exercise of the powers conferred by subsection (3)) is final.

**129 Grounds for appeal not to be raised in other proceedings**

The validity of an enforcement notice may not be questioned, on any of the grounds on which an appeal may be made under section 127, in any proceedings except an appeal under that section.

*Cydymffurfio â hysbysiadau gorfodi***130 Gorchymyn i ganiatáu camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi**

- (1) Caiff perchennog tir wneud cais drwy gŵyn i lys ynadon am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson arall a chanddo fuddiant yn y tir ganiatáu i'r perchennog gymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi.
- (2) Caiff y llys wneud gorchymyn o'r fath os yw wedi ei fodloni bod y person arall yn atal y perchennog rhag cymryd camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad gorfodi.

**131 Pŵer i fynd ar dir a chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi**

- (1) Os yw'r cyfnod y mae hysbysiad gorfodi yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gam gael ei gymryd ynddo wedi dod i ben ac nad yw'r cam wedi ei gymryd, caiff yr awdurdod cynllunio a ddyroddodd yr hysbysiad, ar unrhyw adeg resymol, fynd ar y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef a chymryd y cam.
- (2) Mae person sy'n fwriadol yn rhwystro person sy'n arfer pŵer o dan is-adran (1) yn cyflawni trosedd.
- (3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
- (4) Nid yw'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â thir y Goron.

**132 Adennill costau cydymffurfio â hysbysiad gorfodi**

- (1) Pan fo awdurdod cynllunio yn arfer y pwerau o dan adran 131(1) i fynd ar dir a chymryd cam sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi, caiff yr awdurdod adennill oddi wrth berson sydd ar y pryd yn berchennog ar y tir y costau y mae'n mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny.
- (2) Os yw awdurdod cynllunio yn ceisio adennill costau o dan is-adran (1) oddi wrth berchennog ar dir —
  - (a) y mae ganddo hawlogaeth i gael crogent y tir dim ond fel asiant neu ymddiriedolwr ar gyfer person arall (y "penadur"), a
  - (b) nad oes ganddo, ac nad oedd ganddo ar unrhyw adeg ers y diwrnod pan fynnwyd bod y costau yn cael eu talu, ddigon o arian ar ran y penadur i dalu'r costau yn llawn,

mae atebolrwydd yr asiant neu'r ymddiriedolwr wedi ei gyfyngu i gyfanswm yr arian y mae'r asiant neu'r ymddiriedolwr wedi ei gael ar ran y penadur ers y diwrnod hwnnw.

- (3) Os yw is-adran (2) yn atal awdurdod cynllunio rhag adennill y cyfan o'i gostau oddi wrth asiant neu ymddiriedolwr, caiff eu hadennill oddi wrth y penadur, neu'n rhannol oddi wrth y penadur ac yn rhannol oddi wrth yr asiant neu'r ymddiriedolwr.
- (4) Pan fo copi o hysbysiad gorfodi wedi cael ei gyflwyno mewn cysylltiad ag adeilad rhestredig, mae —
  - (a) costau y mae perchennog neu feddiannydd ar yr adeilad yn mynd iddynt at ddiben cydymffurfio â'r hysbysiad, a

*Compliance with enforcement notices***130 Order to permit steps required by enforcement notice**

- (1) An owner of land may apply by way of complaint to a magistrates' court for an order requiring another person who has an interest in the land to permit the owner to take steps required by an enforcement notice.
- (2) The court may make such an order if it is satisfied that the other person is preventing the owner from taking steps required by the enforcement notice.

**131 Power to enter land and take steps required by enforcement notice**

- (1) If the period within which an enforcement notice requires any step to be taken has ended and the step has not been taken, the planning authority that issued the notice may at any reasonable time enter the land to which the notice relates and take the step.
- (2) A person who intentionally obstructs a person exercising a power under subsection (1) commits an offence.
- (3) A person guilty of an offence under subsection (2) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.
- (4) This section does not apply in relation to Crown land.

**132 Recovery of costs of compliance with enforcement notice**

  - (a) issuing or serving a notice (for example an enforcement notice or temporary stop notice), or
  - (b) making an order (for example an order under section 107 or 115).

*Interpretation***191 Meaning of “local authority” in this Part**

In this Part “local authority” has the meaning given by section 157.

**PART 6****OTHER HERITAGE ASSETS AND RECORDS***Historic parks and gardens***192 Duty to maintain and publish register of historic parks and gardens**

- (1) The Welsh Ministers must maintain a register of parks and gardens in Wales they consider to be of special historic interest, and must publish the up-to-date register.
- (2) The Welsh Ministers must decide whether, or to what extent, to include as part of the registration of a park or garden –
  - (a) any building or water on, adjoining or adjacent to it, or
  - (b) any land adjoining or adjacent to it.
- (3) The Welsh Ministers may amend the register by –
  - (a) adding an entry,

- (b) dileu cofnod, neu
  - (c) diwygio cofnod.
- (4) Cyn gynted ag y bo'n bosibl ar ôl diwygio'r gofrestr, rhaid i Weinidogion Cymru –
- (a) cyflwyno hysbysiad eu bod wedi gwneud hynny i'r personau a grybwyllir yn is-adran (5), a
  - (b) yn achos unrhyw ddiwygiad o dan is-adran (3)(a) neu (c), gynnwys gyda'r hysbysiad gopi o'r cofnod neu'r cofnod diwygiedig yn y gofrestr.
- (5) Y personau y cyfeirir atynt yn is-adran (4) yw –
- (a) pob perchennog a phob meddiannydd ar y parc neu'r ardd o dan sylw (gan gynnwys, os ydynt yn wahanol, berchnogion a meddianwyr unrhyw beth sy'n ymddangos yn y gofrestr yn rhinwedd is-adran (2));
  - (b) yr awdurdod cynllunio y mae'r parc neu'r ardd yn ei ardal (gan gynnwys, os yw'n wahanol, yr awdurdod cynllunio y mae unrhyw beth sy'n ymddangos yn y gofrestr yn rhinwedd is-adran (2) yn ei ardal).
- (6) Yn yr adran hon mae cyfeiriadau at barciau a gerddi yn cynnwys –
- (a) manau hamdden, a
  - (b) unrhyw diroedd eraill sydd wedi eu dylunio (gan gynnwys tirweddau addurnol sydd wedi eu dylunio).

*Enwau lleoedd hanesyddol***193 Dyletswydd i gynnal a chyhoeddi rhestr o enwau lleoedd hanesyddol**

Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru, a rhaid iddynt gyhoeddi'r rhestr gyfredol.

*Cofnodion amgylchedd hanesyddol***194 Dyletswydd i gynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol.
- (2) Mae cofnod amgylchedd hanesyddol yn gofnod sy'n darparu –
- (a) manylion pob heneb gofrestredig yn ardal yr awdurdod,
  - (b) manylion pob adeilad rhestredig yn ardal yr awdurdod,
  - (c) manylion pob ardal gadwraeth yn ardal yr awdurdod,
  - (d) manylion pob parc neu ardd yn ardal yr awdurdod sydd wedi ei gynnwys neu ei chynnwys yn y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol a gynhelir o dan adran 192,
  - (e) manylion pob safle gwrthdaro yn ardal yr awdurdod y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod o ddiddordeb hanesyddol,
  - (f) pan fo awdurdod cyhoeddus (pa un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phersonau eraill) yn cynnal rhestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru, fanylion pob tirwedd hanesyddol yn ardal yr awdurdod lleol sydd wedi ei chynnwys yn y rhestr,
  - (g) manylion pob safle treftadaeth y byd yn ardal yr awdurdod,

- (b) removing an entry, or
  - (c) amending an entry.
- (4) As soon as possible after amending the register, the Welsh Ministers must –
- (a) serve notice that they have done so on the persons mentioned in subsection (5), and
  - (b) in the case of any amendment under subsection (3)(a) or (c), include with the notice a copy of the entry or amended entry in the register.
- (5) The persons referred to in subsection (4) are –
- (a) every owner and occupier of the park or garden in question (including, if different, the owners and occupiers of anything appearing in the register by virtue of subsection (2));
  - (b) the planning authority in whose area the park or garden is situated (including, if different, the planning authority in whose area anything appearing in the register by virtue of subsection (2) is situated).
- (6) In this section references to parks and gardens include –
- (a) places of recreation, and
  - (b) any other designed grounds (including designed ornamental landscapes).

*Historic place names*

**193 Duty to maintain and publish list of historic place names**

The Welsh Ministers must maintain a list of historic place names in Wales, and must publish the up-to-date list.

*Historic environment records*

**194 Duty to maintain historic environment records**

- (1) The Welsh Ministers must maintain a historic environment record for every local authority area.
- (2) A historic environment record is a record which provides –
- (a) details of every scheduled monument in the authority's area,
  - (b) details of every listed building in the authority's area,
  - (c) details of every conservation area in the authority's area,
  - (d) details of every park or garden in the authority's area which is included in the register of historic parks and gardens maintained under section 192,
  - (e) details of every conflict site in the authority's area which the Welsh Ministers consider to be of historic interest,
  - (f) where a public authority (whether by itself or jointly with other persons) maintains a list of historic landscapes in Wales, details of every historic landscape in the local authority's area which is included in the list,
  - (g) details of every world heritage site in the authority's area,

- (h) manylion pob ardal arall neu safle arall yn ardal yr awdurdod y mae'r awdurdod neu Weinidogion Cymru yn ystyried ei bod neu ei fod o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol lleol,
  - (i) gwybodaeth am y ffordd y mae datblygiad hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol ardal yr awdurdod, neu unrhyw ran ohoni, wedi cyfrannu at gymeriad presennol yr ardal neu'r rhan ac am sut y gellir diogelu'r cymeriad hwnnw,
  - (j) manylion ymchwiliadau perthnasol a gynhelir yn ardal yr awdurdod a manylion canfyddiadau'r ymchwiliadau hynny, a
  - (k) dull o gael mynediad at fanylion pob enw lle hanesyddol yn ardal yr awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr a gynhelir o dan adran 193.
- (3) Yn is-adran (2)(e) ystyr "safle gwrthdaro" yw –
- (a) maes brwydr neu safle lle y digwyddodd rhyw wrthdaro arall yr oedd lluoedd arfog yn rhan ohono, neu
  - (b) safle lle y digwyddodd gweithgareddau sylweddol a oedd yn ymwneud â brwydr neu wrthdaro arall yr oedd lluoedd arfog yn rhan ohono.
- (4) Yn is-adran (2)(g) ystyr "safle treftadaeth y byd" yw unrhyw beth sy'n ymddangos ar Restr Treftadaeth y Byd a gedwir o dan Erthygl 11(2) o Gonfensiwn UNESCO ynghylch Gwarchod Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd a fabwysiadwyd ym Mharis ar 16 Tachwedd 1972.
- (5) Yn is-adran (2)(j) ystyr "ymchwiliad perthnasol" yw –
- (a) ymchwiliad gan awdurdod lleol neu Weinidogion Cymru at ddiben cael gwybodaeth o ddiddordeb hanesyddol, archaeolegol neu bensaernïol sy'n ymwneud ag ardal yr awdurdod, a
  - (b) unrhyw ymchwiliad arall at y diben hwnnw y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ei gynnwys yn y cofnod.
- (6) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon i amrywio ystyr "cofnod amgylchedd hanesyddol".
- (7) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (6), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori –
- (a) â phob awdurdod lleol, a
  - (b) ag unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.
- (8) At ddibenion yr adran hon –
- (a) mae unrhyw gyfeiriad at ardal awdurdod lleol yn cynnwys, yn achos awdurdod y mae ei ardal yn cynnwys rhan o lan y môr, unrhyw ran o'r môr sy'n gorwedd tua'r môr o'r rhan honno o'r lan ac sy'n ffurfio rhan o Gymru, a
  - (b) mae ardal, safle neu beth i gael ei thrin neu ei drin fel pe bai mewn ardal awdurdod lleol os yw unrhyw ran ohoni neu ohono yn yr ardal.
- (9) Yn yr adran hon ac adran 196, ystyr "awdurdod lleol" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.

- (h) details of every other area or site in the authority's area which the authority considers or the Welsh Ministers consider to be of local historic, archaeological or architectural interest,
  - (i) information about the way in which the historic, archaeological or architectural development of the authority's area, or any part of it, has contributed to the present character of the area or part and about how that character may be preserved,
  - (j) details of relevant investigations carried out in the authority's area and of the findings of those investigations, and
  - (k) a means of accessing details of every historic place name in the authority's area which is included in the list maintained under section 193.
- (3) In subsection (2)(e) "conflict site" means –
- (a) a battlefield or a site on which some other conflict involving military forces took place, or
  - (b) a site on which significant activities relating to a battle or other conflict involving military forces occurred.
- (4) In subsection (2)(g) "world heritage site" means anything appearing on the World Heritage List kept under Article 11(2) of the UNESCO Convention concerning the Protection of the World Cultural and Natural Heritage adopted at Paris on 16 November 1972.
- (5) In subsection (2)(j) "relevant investigation" means –
- (a) an investigation by a local authority or the Welsh Ministers for the purpose of obtaining information of historic, archaeological or architectural interest relating to the authority's area, and
  - (b) any other investigation for that purpose which the Welsh Ministers consider appropriate to include in the record.
- (6) The Welsh Ministers may by regulations amend this section to vary the meaning of "historic environment record".
- (7) Before making regulations under subsection (6), the Welsh Ministers must consult –
- (a) every local authority, and
  - (b) any other persons the Welsh Ministers consider appropriate.
- (8) For the purposes of this section –
- (a) any reference to a local authority's area includes, in the case of an authority whose area includes part of the seashore, any part of the sea that lies seaward from that part of the shore and forms part of Wales, and
  - (b) an area, site or thing is to be treated as being in a local authority's area if any part of it is in the area.
- (9) In this section and section 196, "local authority" means a county council or county borough council in Wales.

**195 Mynediad at gofnodion amgylchedd hanesyddol**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru –
  - (a) rhoi pob cofnod amgylchedd hanesyddol ar gael i'r cyhoedd edrych arno, a
  - (b) rhoi ar gael i berson sy'n dymuno edrych ar gofnod amgylchedd hanesyddol gyngor ar adalw a deall gwybodaeth sydd wedi ei darparu yn y cofnod neu y ceir mynediad ati drwy'r cofnod, neu gynhorthwy i wneud hynny.
- (2) Os yw –
  - (a) person yn gofyn am gopi o ran o gofnod amgylchedd hanesyddol neu fanylion y ceir mynediad atynt drwy gofnod o'r fath, a
  - (b) Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cais yn rhesymol,
 rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu'r copi hwnnw neu'r manylion hynny i'r person.
- (3) Os yw –
  - (a) person yn gofyn i wybodaeth sydd wedi ei darparu mewn cofnod amgylchedd hanesyddol neu y ceir mynediad ati drwy gofnod o'r fath gael ei hadalw, a
  - (b) Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cais yn rhesymol,
 rhaid i Weinidogion Cymru lunio dogfen ar gyfer y person sy'n cynnwys yr wybodaeth.
- (4) Wrth asesu a yw cais yn rhesymol at ddibenion is-adran (2) neu (3), mae'r materion y caiff Gweinidogion Cymru eu hystyried yn cynnwys unrhyw geisiadau blaenorol a wnaed gan y person o dan sylw neu ar ei ran.
- (5) Caiff Gweinidogion Cymru godi ffi –
  - (a) am ddarparu cyngor neu gynhorthwy o dan is-adran (1)(b);
  - (b) am ddarparu copi neu fanylion o dan is-adran (2);
  - (c) am lunio dogfen o dan is-adran (3).
- (6) Rhaid i ffi gael ei chyfrifo gan ystyried y gost o ddarparu'r gwasanaeth y mae'r ffi yn ymwneud ag ef.

**196 Canllawiau i gyrff cyhoeddus penodol ynghylch cofnodion amgylchedd hanesyddol**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r gyrff a restrir yn is-adran (2) –
  - (a) ar sut y gall y gyrff gyfrannu tuag at lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol a chynorthwyo i gynnal y cofnodion, a
  - (b) ar y defnydd o gofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer swyddogaethau'r gyrff.
- (2) Y gyrff yw –
  - (a) awdurdodau lleol,
  - (b) awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, ac
  - (c) Cyfoeth Naturiol Cymru.
- (3) Rhaid i'r gyrff hynny roi sylw i'r canllawiau.
- (4) Cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori –
  - (a) â'r gyrff, a

**195 Access to historic environment records**

- (1) The Welsh Ministers must –
  - (a) make every historic environment record available for public inspection, and
  - (b) make available to a person wishing to inspect a historic environment record advice on or assistance with retrieving and understanding information provided in the record or accessed by means of the record.
- (2) If –
  - (a) a person requests a copy of part of a historic environment record or of details accessed by means of such a record, and
  - (b) the Welsh Ministers consider that the request is reasonable,the Welsh Ministers must provide the person with that copy or those details.
- (3) If –
  - (a) a person requests the retrieval of information provided in a historic environment record or accessed by means of such a record, and
  - (b) the Welsh Ministers consider that the request is reasonable,the Welsh Ministers must compile a document for the person containing the information.
- (4) In assessing whether a request is reasonable for the purposes of subsection (2) or (3), the matters which the Welsh Ministers may take into account include any previous requests made by or on behalf of the person concerned.
- (5) The Welsh Ministers may charge a fee for –
  - (a) providing advice or assistance under subsection (1)(b);
  - (b) providing a copy or details under subsection (2);
  - (c) compiling a document under subsection (3).
- (6) A fee must be calculated by reference to the cost of providing the service to which the fee relates.

**196 Guidance to certain public bodies about historic environment records**

- (1) The Welsh Ministers must issue guidance to the bodies listed in subsection (2) on –
  - (a) how the bodies may contribute to the compilation of historic environment records and assist in maintaining the records, and
  - (b) the use of historic environment records in the exercise of the bodies' functions.
- (2) The bodies are –
  - (a) local authorities,
  - (b) National Park authorities in Wales, and
  - (c) Natural Resources Wales.
- (3) Those bodies must have regard to the guidance.
- (4) Before issuing guidance under this section, the Welsh Ministers must consult –
  - (a) the bodies, and

- (b) ag unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.

## RHAN 7

### CYFFREDINOL

*Pwerau i wneud gwybodaeth am fuddiannau mewn tir yn ofynnol*

#### 197 Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol drwy hysbysiad

- (1) Caiff awdurdod perthnasol gyflwyno hysbysiad (“hysbysiad gwybodaeth”) sy’n ei gwneud yn ofynnol i feddiannydd unrhyw dir neu i berson sy’n cael rhent (naill ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol) mewn cysylltiad ag unrhyw dir gadarnhau’n ysgrifenedig –
- natur buddiant y person yn y tir, a
  - enw a chyfeiriad unrhyw berson arall sy’n wybyddus i’r person fel rhywun y mae ganddo fuddiant yn y tir.
- (2) Ond ni chaiff awdurdod perthnasol gyflwyno hysbysiad gwybodaeth oni bai bod ar yr awdurdod angen yr wybodaeth sy’n ofynnol gan yr hysbysiad i’w alluogi –
- i arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau’r awdurdod o dan neu yn rhinwedd Rhan 2, neu
  - i wneud gorchymyn neu ddyroddi neu gyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall o dan neu yn rhinwedd Rhan 3, 4 neu 5.
- (3) Caiff hysbysiad gwybodaeth ei gwneud yn ofynnol i’r wybodaeth gael ei rhoi –
- o fewn 21 o ddiwrnodau sy’n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad, neu
  - o fewn unrhyw gyfnod hwy a bennir gan yr hysbysiad neu a ganiateir gan yr awdurdod perthnasol.
- (4) Yn yr adran hon ystyr “awdurdod perthnasol” yw –
- Gweinidogion Cymru;
  - awdurdod lleol (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 157).

#### 198 Troseddau mewn cysylltiad ag adran 197

- (1) Mae person y mae hysbysiad o dan adran 197 yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth yn cyflawni trosedd os yw’r person yn methu, heb esgus rhesymol, â darparu’r wybodaeth.
- (2) Mae person sy’n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw’n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
- (3) Mae person y mae hysbysiad o dan adran 197 yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth yn cyflawni trosedd os yw’r person, gan ymholni ei fod yn cydymffurfio â’r hysbysiad, yn darparu gwybodaeth y mae’n gwybod ei bod yn anwir neu’n gamarweiniol mewn modd perthnasol.



- (b) any other persons they consider appropriate.
- (5) The Welsh Ministers must lay before Senedd Cymru any guidance issued under this section.

## PART 7 GENERAL

### *Powers to require information about interests in land*

#### **197 Power to require information by notice**

- (1) A relevant authority may serve a notice (an “information notice”) requiring the occupier of any land or a person who receives rent (either directly or indirectly) in respect of any land to confirm in writing –
  - (a) the nature of the person’s interest in the land, and
  - (b) the name and address of any other person known to the person as having an interest in the land.
- (2) But a relevant authority may not serve an information notice unless the information required by the notice is needed by the authority to enable it to –
  - (a) exercise any of the authority’s functions under or by virtue of Part 2, or
  - (b) make an order or issue or serve a notice or other document under or by virtue of Part 3, 4 or 5.
- (3) An information notice may require the information to be given within –
  - (a) 21 days beginning with the day after the day the notice is served, or
  - (b) any longer period specified by the notice or allowed by the relevant authority.
- (4) In this section “relevant authority” means –
  - (a) the Welsh Ministers;
  - (b) a local authority (within the meaning given by section 157).

#### **198 Offences in connection with section 197**

- (1) A person required to provide information by a notice under section 197 commits an offence if the person fails, without reasonable excuse, to provide the information.
- (2) A person guilty of an offence under subsection (1) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.
- (3) A person required to provide information by a notice under section 197 commits an offence if the person, in purported compliance with the notice, knowingly provides information which is false or misleading in a material respect.

- (4) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (3) yn agored ar euogfarn ddiannod, neu ar euogfarn ar dditiad, i ddirwy.

### 199 Gwybodaeth am fuddiannau yn nhir y Goron

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys i fuddiant yn nhir y Goron nad yw'n fuddiant preifat.
- (2) Nid yw adran 197 yn gymwys i fuddiant y mae'r adran hon yn gymwys iddo.
- (3) Ond caiff Gweinidogion Cymru, at ddiben galluogi awdurdod perthnasol i arfer swyddogaeth a grybwyllir yn adran 197(2)(a) neu (b), ofyn i awdurdod priodol y Goron gadarnhau'n ysgrifenedig –
- (a) natur buddiant yr awdurdod yn y tir;
  - (b) enw a chyfeiriad unrhyw berson arall sy'n wybyddus i'r awdurdod fel rhywun y mae ganddo fuddiant yn y tir.
- (4) Rhaid i awdurdod priodol y Goron gydymffurfio â chais o dan is-adran (3) ac eithrio i'r graddau –
- (a) nad yw'r wybodaeth y gofynnir amdani o fewn gwybodaeth yr awdurdod, neu
  - (b) y bydd gwneud hynny yn datgelu gwybodaeth –
    - (i) am ddiogelwch gwladol, neu
    - (ii) am y mesurau sydd wedi eu cymryd neu sydd i'w cymryd i sicrhau diogelwch unrhyw dir neu eiddo arall.

#### *Troseddau*

### 200 Troseddau gan gyrff corfforedig

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan brofir bod trosedd o dan y Ddeddf hon a gyflawnwyd gan gorff corfforedig wedi ei chyflawni gyda chydysniad neu ymoddefiad y canlynol, neu y gellir ei phriodoli i esgeulustod ar ran y canlynol –
- (a) uwch-swyddog i'r corff, neu
  - (b) person a oedd yn ymholni ei fod yn uwch-swyddog i'r corff.
- (2) Mae'r uwch-swyddog neu'r person (yn ogystal â'r corff corfforedig) yn euog o'r drosedd, ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.
- (3) Yn yr adran hon ystyr "uwch-swyddog" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforedig.
- (4) Ond yn achos corff corfforedig y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, ystyr "cyfarwyddwr" yw aelod o'r corff.

### 201 Sanctsiynau sifil

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â throsedd o dan y Ddeddf hon y gallent ei gwneud o dan Ran 3 o DGRhS 2008 (sanctsiynau sifil) pe bai, at ddibenion y Rhan honno –
- (a) Gweinidogion Cymru neu unrhyw awdurdod arall a chanddo swyddogaeth orfodi mewn perthynas â'r drosedd yn rheoleiddiwr, a
  - (b) y drosedd yn drosedd berthnasol mewn perthynas â'r rheoleiddiwr hwnnw.

- (4) A person guilty of an offence under subsection (3) is liable on summary conviction, or on conviction on indictment, to a fine.

## 199 Information about interests in Crown land

- (1) This section applies to an interest in Crown land which is not a private interest.
- (2) Section 197 does not apply to an interest to which this section applies.
- (3) But the Welsh Ministers may, for the purpose of enabling a relevant authority to exercise a function mentioned in section 197(2)(a) or (b), request the appropriate Crown authority to confirm in writing –
  - (a) the nature of the authority's interest in the land;
  - (b) the name and address of any other person known to the authority as having an interest in the land.
- (4) The appropriate Crown authority must comply with a request under subsection (3) except to the extent –
  - (a) that the information requested is not within the knowledge of the authority, or
  - (b) that to do so will disclose information about –
    - (i) national security, or
    - (ii) the measures taken or to be taken to ensure the security of any land or other property.

### *Offences*

## 200 Offences by bodies corporate

- (1) This section applies where an offence under this Act committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to neglect on the part of –
  - (a) a senior officer of the body, or
  - (b) a person who was purporting to be a senior officer of the body.
- (2) The senior officer or person (as well as the body corporate) is guilty of the offence, and is liable to be proceeded against and punished accordingly.
- (3) In this section "senior officer" means a director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate.
- (4) But in the case of a body corporate whose affairs are managed by its members, "director" means a member of the body.

## 201 Civil sanctions

- (1) The Welsh Ministers may by regulations make any provision in relation to an offence under this Act that they could make under Part 3 of RESA 2008 (civil sanctions) if, for the purposes of that Part –
  - (a) the Welsh Ministers or any other authority which has an enforcement function in relation to the offence were a regulator, and
  - (b) the offence were a relevant offence in relation to that regulator.

- (2) Mae adrannau 59(3) a 60(1) a (2) o DGRhS 2008 (ymgyngori) yn gymwys i reoliadau o dan is-adran (1) fel y maent yn gymwys i orchymyn o dan Ran 3 o DGRhS 2008.
- (3) Mae adrannau 63 i 70 o DGRhS 2008 (canllawiau, arfer pwerau, taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru a datgelu gwybodaeth) ym gymwys mewn perthynas â darpariaeth a wneir o dan is-adran (1) fel y maent yn gymwys mewn perthynas â darpariaeth a wneir o dan Ran 3 o DGRhS 2008.
- (4) Yn is-adran (1) mae'r cyfeiriad at awdurdod a chanddo swyddogaeth orfodi i'w ddehongli yn unol ag adran 71 o DGRhS 2008.
- (5) Yn yr adran hon ystyr "DGRhS 2008" yw Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 (p. 13).

### *Digollediad*

#### **202 Gwneud hawliadau am ddigollediad**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau –
  - (a) gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae rhaid gwneud hawliad am ddigollediad o dan y Ddeddf hon;
  - (b) diwygio unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon sy'n pennu'r cyfnod y mae rhaid gwneud hawliad am ddigollediad ynddo.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru estyn y cyfnod ar gyfer gwneud hawliad am ddigollediad o dan y Ddeddf hon mewn achos penodol, os ydynt wedi eu bodloni bod rhesymau da dros wneud hynny.
- (3) Caniateir estyn y cyfnod ar gyfer gwneud hawliad –
  - (a) ar unrhyw adeg, pa un ai cyn neu ar ôl i'r cyfnod ddod i ben, a
  - (b) mwy nag unwaith.

#### **203 Penderfynu hawliadau digollediad gan yr Uwch Dribiwnlys**

- (1) Mae unrhyw anghydfod ynghylch digollediad o dan y Ddeddf hon i'w atgyfeirio at yr Uwch Dribiwnlys ac i'w benderfynu ganddo.
- (2) Mae adran 4 o Ddeddf Digollediad Tir 1961 (p. 33) (costau) yn gymwys i benderfynu cwestiwn a atgyfeirir o dan yr adran hon fel y mae'n gymwys i benderfynu cwestiwn a atgyfeirir o dan adran 1 o'r Ddeddf honno, ond fel pe bai cyfeiriadau at yr "acquiring authority" yn gyfeiriadau at y person yr hawlir digollediad oddi wrtho.

#### **204 Digollediad am ddibrisiant yng ngwerth tir**

- (1) Mae'r rheolau yn adran 5 o Ddeddf Digollediad Tir 1961 (p. 33) yn cael effaith at ddiben asesu unrhyw ddigollediad am ddibrisiant sy'n daladwy o dan y Ddeddf hon, i'r graddau y maent yn berthnasol a chydag unrhyw addasiadau angenrheidiol, fel y maent yn cael effaith at ddiben asesu digollediad am gaffael yn orfodol fuddiant mewn tir.
- (2) Pan fo buddiant mewn tir yn ddarostyngedig i forgais –
  - (a) rhaid i unrhyw ddigollediad am ddibrisiant sy'n daladwy o dan y Ddeddf hon mewn cysylltiad â'r buddiant gael ei asesu fel pe na bai'r buddiant yn ddarostyngedig i'r morgais;

- (2) Sections 59(3) and 60(1) and (2) of RESA 2008 (consultation) apply to regulations under subsection (1) as they apply to an order under Part 3 of RESA 2008.
- (3) Sections 63 to 70 of RESA 2008 (guidance, exercise of powers, payment into Welsh Consolidated Fund and disclosure of information) apply in relation to provision made under subsection (1) as they apply in relation to provision made under Part 3 of RESA 2008.
- (4) In subsection (1) the reference to an authority which has an enforcement function is to be interpreted in accordance with section 71 of RESA 2008.
- (5) In this section “RESA 2008” means the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008 (c. 13).

### *Compensation*

#### **202 Making claims for compensation**

- (1) The Welsh Ministers may by regulations –
  - (a) make provision about how a claim for compensation under this Act must be made;
  - (b) amend any provision of this Act which specifies the period within which a claim for compensation must be made.
- (2) The Welsh Ministers may extend the period for making a claim for compensation under this Act in a particular case, if they are satisfied that there are good reasons for doing so.
- (3) The period for making a claim may be extended –
  - (a) at any time, whether before or after the period ends, and
  - (b) more than once.

#### **203 Determination of compensation claims by Upper Tribunal**

- (1) Any dispute about compensation under this Act is to be referred to and determined by the Upper Tribunal.
- (2) Section 4 of the Land Compensation Act 1961 (c. 33) (costs) applies to the determination of a question referred under this section as it applies to the determination of a question referred under section 1 of that Act, but as if references to the acquiring authority were references to the person from whom compensation is claimed.

#### **204 Compensation for depreciation of value of land**

- (1) The rules in section 5 of the Land Compensation Act 1961 (c. 33) have effect for the purpose of assessing any compensation for depreciation payable under this Act, so far as relevant and with any necessary modifications, as they have effect for the purpose of assessing compensation for the compulsory acquisition of an interest in land.
- (2) Where an interest in land is subject to a mortgage –
  - (a) any compensation for depreciation that is payable under this Act in respect of the interest must be assessed as if the interest were not subject to the mortgage;

- (b) caniateir i hawliad am ddigollediad am ddibrisiant gael ei wneud gan unrhyw forgeisai i'r buddiant, ond nid yw hynny yn effeithio ar hawl y person y mae ei fuddiant yn ddarostyngedig i'r morgais i wneud hawliad;
  - (c) nid oes digollediad am ddibrisiant yn daladwy mewn cysylltiad â buddiant y morgeisai (sy'n wahanol i'r buddiant sy'n ddarostyngedig i'r morgais);
  - (d) rhaid i unrhyw ddigollediad am ddibrisiant sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r buddiant sy'n ddarostyngedig i'r morgais gael ei dalu i'r morgeisai neu, os oes mwy nag un morgeisai, i'r morgeisai cyntaf; a rhaid iddo gael ei gymhwyso gan y morgeisai y telir y digollediad iddo fel pe bai'n enillion gwerthu.
- (3) Yn yr adran hon ystyr "digollediad am ddibrisiant" yw digollediad am golled neu ddifrod sy'n ddibrisiant yng ngwerth buddiant mewn tir.

*Cyflwyno dogfennau*

**205 Cyflwyno hysbysiadau a dogfennau eraill: cyffredinol**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Ddeddf hon neu a wneir odani yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad neu ddogfen arall gael ei gyflwyno neu ei chyflwyno i berson neu'n awdurdodi cyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall i berson (pa un a yw'r ddarpariaeth yn defnyddio'r gair "cyflwyno" neu "rhoi" neu unrhyw derm arall).
- (2) Caniateir cyflwyno'r ddogfen i'r person yn unrhyw un o'r ffyrdd a ganlyn –
- (a) drwy ei rhoi â llaw i'r person neu, yn achos person sy'n gorff corfforedig, ei rhoi â llaw i ysgrifennydd neu glerc y corff yn ei swyddfa gofrestrredig neu ei brif swyddfa;
  - (b) drwy ei gadael ym man preswyllo arferol y person neu ym man preswyllo hysbys diwethaf y person neu, os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno, yn y cyfeiriad hwnnw;
  - (c) drwy ei hanfon drwy'r post mewn llythyr wedi ei ragdalau –
    - (i) wedi ei gyfeirio at y person ym man preswyllo arferol y person neu ym man preswyllo hysbys diwethaf y person neu, yn achos person sy'n gorff corfforedig, wedi ei gyfeirio at ysgrifennydd neu glerc y corff yn ei swyddfa gofrestrredig neu ei brif swyddfa, neu
    - (ii) os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno, wedi ei gyfeirio i'r person yn y cyfeiriad hwnnw;
  - (d) os yw'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig, drwy ei hanfon at y person yn y cyfeiriad hwnnw gan ddefnyddio cyfathrebiad electronig sy'n cydymffurfio â'r amodau yn is-adran (3).
- (3) Yr amodau yw –
- (a) bod modd i'r person yr anfonir y ddogfen ato gyrchu'r ddogfen,
  - (b) bod y ddogfen yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol, ac
  - (c) bod y ddogfen yn gallu cael ei defnyddio i gyfeirio ati yn ddiweddarach.
- (4) Pan fo cyfathrebiad electronig yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno dogfen i berson a bod y ddogfen yn dod i law'r person y tu allan i oriau busnes y person, mae'r ddogfen i'w thrin fel pe bai wedi ei chyflwyno ar y diwrnod gwaith nesaf.

- (b) a claim for compensation for depreciation may be made by any mortgagee of the interest, but that does not affect the right of the person whose interest is subject to the mortgage to make a claim;
  - (c) no compensation for depreciation is payable in respect of the interest of the mortgagee (as distinct from the interest that is subject to the mortgage);
  - (d) any compensation for depreciation that is payable in respect of the interest subject to the mortgage must be paid to the mortgagee or, if there is more than one mortgagee, to the first mortgagee; and it must be applied by the mortgagee to whom it is paid as if it were proceeds of sale.
- (3) In this section “compensation for depreciation” means compensation for loss or damage consisting of depreciation of the value of an interest in land.

*Service of documents*

**205 Service of notices and other documents: general**

- (1) This section applies where a provision contained in or made under this Act requires or authorises a notice or other document to be served on a person (whether the provision uses the word “serve” or “give” or any other term).
- (2) The document may be served on the person in any of the following ways –
- (a) by handing it to the person or, in the case of a person who is a body corporate, handing it to the secretary or clerk of the body at its registered or principal office;
  - (b) by leaving it at the person’s usual or last known place of residence or, if the person has given an address for service, at that address;
  - (c) by sending it by post in a pre-paid letter –
    - (i) addressed to the person at the person’s usual or last known place of residence or, in the case of a person who is a body corporate, addressed to the secretary or clerk of the body at its registered or principal office, or
    - (ii) if the person has given an address for service, addressed to the person at that address;
  - (d) if the person has given an address for service using electronic communications, by sending it to the person at that address using an electronic communication which complies with the conditions in subsection (3).
- (3) The conditions are that the document is –
- (a) capable of being accessed by the person to whom it is sent,
  - (b) legible in all material respects, and
  - (c) capable of being used for subsequent reference.
- (4) Where an electronic communication is used to serve a document on a person and is received by the person outside the person’s business hours, the document is to be treated as having been served on the next working day.

- (5) Gweler adran 233 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) am ddarpariaeth ychwanegol ynghylch y dulliau y caiff awdurdodau lleol eu defnyddio i gyflwyno dogfennau.

**206 Darpariaeth ychwanegol ynghylch cyflwyno i bersonau sydd â buddiant mewn tir neu sy'n meddiannu tir**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys (yn ychwanegol at adran 205) pan fo darpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Ddeddf hon neu a wneir odani yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad neu ddogfen arall gael ei gyflwyno neu ei chyflwyno i berson, neu'n awdurdodi cyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall i berson –
- (a) am fod ganddo fuddiant mewn adeilad, heneb neu dir, neu
  - (b) am ei fod yn feddiannydd ar adeilad, heneb neu dir.
- (2) Pan fo'r ddogfen i'w chyflwyno i berson am fod ganddo fuddiant mewn adeilad, heneb neu dir, ac na ellir darganfod enw'r person ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol, caniateir cyfeirio'r ddogfen at y person fel "y perchennog" ar yr adeilad, yr heneb neu'r tir (y mae rhaid ei ddisgrifio neu ei disgrifio).
- (3) Pan fo'r ddogfen i'w chyflwyno i berson am ei fod yn feddiannydd ar adeilad, heneb neu dir, caniateir ei chyfeirio at y person wrth ei enw neu fel "y meddiannydd" ar yr adeilad, yr heneb neu'r tir (y mae rhaid ei ddisgrifio neu ei disgrifio).
- (4) Mae is-adran (5) yn gymwys –
- (a) pan –
    - (i) bo dogfen i'w chyflwyno i berson am fod ganddo fuddiant mewn adeilad, heneb neu dir,
    - (ii) na fo modd darganfod man preswyllo arferol neu fan preswyllo hysbys diwethaf y person ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol, a
    - (iii) na fo'r person wedi rhoi cyfeiriad ar gyfer cyflwyno'r ddogfen, neu
  - (b) pan fo dogfen i'w chyflwyno i berson am ei fod yn feddiannydd ar adeilad, heneb neu dir.
- (5) Mae'r ddogfen i'w thrin fel pe bai wedi ei chyflwyno'n briodol os yw wedi ei chyfeirio at y person, wedi ei marcio'n glir fel cyfathrebiad pwysig sy'n effeithio ar eiddo'r person, a'i bod –
- (a) wedi ei hanfon i'r adeilad, yr heneb neu'r tir drwy'r post ac nad yw wedi ei dychwelyd fel dogfen nas danfonwyd,
  - (b) wedi ei rhoi â llaw i berson sydd, neu yr ymddengys ei fod, yn preswyllo neu wedi ei gyflogi yn neu ar yr adeilad, yr heneb neu'r tir, neu
  - (c) wedi ei gosod yn sownd mewn lle gweladwy ar yr adeilad neu'r heneb neu ar wrthrych ar safle'r heneb neu ar y tir.

*Achosion arbennig*

**207 Diffiniadau sy'n ymwneud â'r Goron**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.
- (2) Ystyr "tir y Goron" yw tir y mae buddiant y Goron neu fuddiant y Ddugiaeth ynddo.



- (5) See section 233 of the Local Government Act 1972 (c. 70) for additional provision about the methods by which local authorities may serve documents.

**206 Additional provision about service on persons interested in or occupying land**

- (1) This section applies (in addition to section 205) where a provision contained in or made under this Act requires or authorises a notice or other document to be served on a person –
- (a) as having an interest in a building, monument or land, or
  - (b) as an occupier of a building, monument or land.
- (2) Where the document is to be served on a person as having an interest in a building, monument or land, and the name of the person cannot be discovered after making reasonable inquiries, the document may be addressed to the person as “the owner” of the building, monument or land (which must be described).
- (3) Where the document is to be served on a person as an occupier of a building, monument or land, it may be addressed to the person by name or as “the occupier” of the building, monument or land (which must be described).
- (4) Subsection (5) applies –
- (a) where –
    - (i) a document is to be served on a person as having an interest in a building, monument or land,
    - (ii) the person’s usual or last known place of residence cannot be discovered after making reasonable inquiries, and
    - (iii) the person has not given an address for the service of the document, or
  - (b) where a document is to be served on a person as an occupier of a building, monument or land.
- (5) The document is to be treated as properly served if it is addressed to the person, clearly marked as an important communication affecting the person’s property, and is –
- (a) sent to the building, monument or land by post and not returned as undelivered,
  - (b) handed to a person who is, or appears to be, resident or employed in or on the building, monument or land, or
  - (c) attached conspicuously to the building or monument or to an object on the site of the monument or on the land.

*Special cases*

**207 Definitions relating to the Crown**

- (1) This section applies for the purposes of this Act.
- (2) “Crown land” means land in which there is a Crown interest or a Duchy interest.

- (3) Ystyr “buddiant y Goron” yw buddiant –
- (a) sy’n perthyn i’w Fawrhydi yn hawl y Goron neu yn hawl Ei ystadau preifat, neu
  - (b) sy’n perthyn i adran o’r llywodraeth neu sy’n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer Ei Fawrhydi at ddibenion adran o’r llywodraeth.
- (4) Ystyr “buddiant y Ddugiaeth” yw –
- (a) buddiant sy’n perthyn i’w Fawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn, neu
  - (b) buddiant sy’n perthyn i Ddugiaeth Cernyw.
- (5) Ystyr “buddiant preifat”, mewn perthynas â thir y Goron, yw buddiant nad yw’n fuddiant y Goron nac yn fuddiant y Ddugiaeth.
- (6) Ystyr “awdurdod priodol y Goron”, mewn perthynas â thir y Goron, yw –
- (a) yn achos tir sy’n perthyn i’w Fawrhydi yn hawl y Goron ac sy’n ffurfio rhan o Ystad y Goron, Comisiynwyr Ystad y Goron;
  - (b) mewn perthynas ag unrhyw dir arall sy’n perthyn i’w Fawrhydi yn hawl y Goron, yr adran o’r llywodraeth sy’n rheoli’r tir;
  - (c) mewn perthynas â thir sy’n perthyn i’w Fawrhydi yn hawl Ei ystadau preifat, person a benodir gan Ei Fawrhydi yn ysgrifenedig o dan y Llofnod Brenhinol neu, os na wneir unrhyw benodiad o’r fath, Gweinidogion Cymru;
  - (d) mewn perthynas â thir sy’n perthyn i’w Fawrhydi yn hawl Dugiaeth Caerhirfryn, Canghellor y Ddugiaeth;
  - (e) mewn perthynas â thir sy’n perthyn i Ddugiaeth Cernyw, person a benodir gan Ddug Cernyw neu gan berson sy’n meddu ar y Ddugiaeth am y tro;
  - (f) yn achos tir sy’n perthyn i adran o’r llywodraeth neu sy’n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer Ei Fawrhydi at ddibenion adran o’r llywodraeth, yr adran.
- (7) Mae “y Goron” i’w drin fel pe bai’n cynnwys Comisiwn y Senedd.
- (8) Rhaid atgyfeirio unrhyw gwestiwn sy’n codi ynghylch pwy yw awdurdod priodol y Goron mewn perthynas ag unrhyw dir i’r Trysorlys, y mae ei benderfyniad yn derfynol.
- (9) Yn yr adran hon –
- (a) mae cyfeiriadau at ystadau preifat Ei Fawrhydi i’w darllen yn unol ag adran 1 o Ddeddf Ystadau Preifat y Goron 1862 (p. 37);
  - (b) mae cyfeiriadau at adran o’r llywodraeth yn cynnwys Gweinidog y Goron a Chomisiwn y Senedd (a gweler adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), sy’n darparu i gyfeiriadau at adran o’r llywodraeth gynnwys Gweinidogion Cymru, y Prif Weinidog a’r Cwnsler Cyffredinol).

## 208 Tir Eglwys Loegr

- (1) Pan fo unrhyw ddarpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Ddeddf hon neu a wneir odani yn ei gwneud yn ofynnol neu’n awdurdodi cyflwyno hysbysiad neu ddogfen arall i berchennog ar dir, a thir Eglwys Loegr yw’r tir, rhaid cyflwyno dogfen gyfatebol i’r Bwrdd Cyllid priodol hefyd.
- (2) Mae tir Eglwys Loegr sy’n perthyn i fywoliaeth eglwysig sydd heb ddeiliad i’w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai’n perthyn i’r Bwrdd Cyllid priodol.

- (3) “Crown interest” means an interest which –
  - (a) belongs to His Majesty in right of the Crown or in right of His private estates, or
  - (b) belongs to a government department or is held in trust for His Majesty for the purposes of a government department.
- (4) “Duchy interest” means –
  - (a) an interest belonging to His Majesty in right of the Duchy of Lancaster, or
  - (b) an interest belonging to the Duchy of Cornwall.
- (5) “Private interest”, in relation to Crown land, means an interest which is neither a Crown interest nor a Duchy interest.
- (6) “Appropriate Crown authority”, in relation to Crown land, means –
  - (a) in the case of land belonging to His Majesty in right of the Crown and forming part of the Crown Estate, the Crown Estate Commissioners;
  - (b) in relation to any other land belonging to His Majesty in right of the Crown, the government department having the management of the land;
  - (c) in relation to land belonging to His Majesty in right of His private estates, a person appointed by His Majesty in writing under the Royal Sign Manual or, if no such appointment is made, the Welsh Ministers;
  - (d) in relation to land belonging to His Majesty in right of the Duchy of Lancaster, the Chancellor of the Duchy;
  - (e) in relation to land belonging to the Duchy of Cornwall, a person appointed by the Duke of Cornwall or by the possessor for the time being of the Duchy;
  - (f) in the case of land belonging to a government department or held in trust for His Majesty for the purposes of a government department, the department.
- (7) “The Crown” is to be treated as including the Senedd Commission.
- (8) Any question that arises about who is the appropriate Crown authority in relation to any land must be referred to the Treasury, whose decision is final.
- (9) In this section –
  - (a) references to His Majesty’s private estates are to be read in accordance with section 1 of the Crown Private Estates Act 1862 (c. 37);
  - (b) references to a government department include a Minister of the Crown and the Senedd Commission (and see section 85 of the Government of Wales Act 2006 (c. 32), which provides for references to a government department to include the Welsh Ministers, the First Minister and the Counsel General).

## 208 Church of England land

- (1) Where any provision contained in or made under this Act requires or authorises a notice or other document to be served on an owner of land, and the land is Church of England land, a corresponding document must also be served on the appropriate Board of Finance.
- (2) Church of England land belonging to an ecclesiastical benefice which is vacant is to be treated for the purposes of this Act as belonging to the appropriate Board of Finance.

- (3) Rhaid i unrhyw ddigollediad sy'n daladwy o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â thir Eglwys Loegr –
- (a) cael ei dalu i'r Bwrdd Cyllid priodol, a
  - (b) cael ei gymhwyso gan y Bwrdd hwnnw at y dibenion y byddai enillion gwerthu'r tir drwy gytundeb yn gymwys iddynt o dan unrhyw ddeddfiad neu Fesur gan Eglwys Loegr sy'n awdurdodi neu'n gwaredu enillion gwerthiant o'r fath.
- (4) Pan fo swm yn adenilladwy o dan adran 22 mewn perthynas â thir Eglwys Loegr, caiff y Bwrdd Cyllid priodol gymhwyso unrhyw arian neu unrhyw warannau a ddelir ganddo i ad-dalu'r swm hwnnw.
- (5) Yn yr adran hon –
- ystyr "Bwrdd Cyllid priodol" (*"appropriate Board of Finance"*), mewn perthynas ag unrhyw dir, yw'r Bwrdd Cyllid Esgobaethol ar gyfer yr esgobaeth y mae'r tir ynddi; ystyr "Mesur gan Eglwys Loegr" (*"Church Measure"*) yw Mesur gan Gynulliad Eglwys Loegr neu gan Synod Cyffredinol Eglwys Loegr;
- ystyr "tir Eglwys Loegr" (*"Church of England land"*) yw tir –
- (a) sy'n perthyn i fywoliaeth eglwysig i Eglwys Loegr,
  - (b) sy'n eglwys neu'n ffurfio rhan o eglwys sy'n ddarostyngedig i awdurdodaeth esgob yn un o esgobaethau Eglwys Loegr neu safle eglwys o'r fath, neu
  - (c) sy'n gladdfa neu'n ffurfio rhan o gladdfa sy'n ddarostyngedig i awdurdodaeth esgob o'r fath.

*Cyffredinol*

**209 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon**

- (1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.
- (2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer –
  - (a) i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;
  - (b) i wneud darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.
- (3) Yn achos rheoliadau a wneir o dan y pwerau a grybwyllir yn is-adran (4), mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (2)(b) yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon.
- (4) Y pwerau y cyfeirir atynt yn is-adran (3) yw'r pwerau a roddir gan –
  - (a) adran 167 (ffioedd am arfer swyddogaethau awdurdodau cynllunio);
  - (b) adran 172 (ffioedd am apelau sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig ac adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth);
  - (c) adran 174(8) (achosion y mae rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu'r weithdrefn ar eu cyfer);
  - (d) adrannau 185(2)(c), 186(7)(e) a 187(5) (cywiro penderfyniadau).

- (3) Any compensation payable under this Act in relation to Church of England land must be –
- (a) paid to the appropriate Board of Finance, and
  - (b) applied by that Board for the purposes for which the proceeds of a sale by agreement of the land would be applicable under any enactment or Church Measure authorising or disposing of the proceeds of such a sale.
- (2) The report must include the appointed person's conclusions and recommendation as to whether the modification or revocation ought to be made (or the appointed person's reasons for not making a recommendation).

## ATODLEN 5

*(a gyflwynir gan adran 27(4))*TERFYNU DRWY ORCHYMYN GYTUNDEB PARTNERIAETH HENEB  
GOFRESTREDIG

## RHAN 1

## HYSBYSIAD O DERFYNIAD ARFAETHEDIG

*Gofyniad i gyflwyno hysbysiad o derfyniad arfaethedig*

- 1 (1) Cyn gwneud gorchymyn o dan adran 27 sy'n terfynu cytundeb partneriaeth heneb gofrestredig neu ddarpariaeth mewn cytundeb o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o gynnig i wneud y gorchymyn ("hysbysiad o derfyniad arfaethedig")—
- (a) i'r partion eraill i'r cytundeb, a
  - (b) i unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod ganddo fuddiant yn y cytundeb.
- (2) Rhaid i hysbysiad o derfyniad arfaethedig—
- (a) cynnwys copi o'r gorchymyn y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig ei wneud,
  - (b) nodi'r rhesymau dros y terfyniad arfaethedig,
  - (c) datgan bod gan y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo 28 o ddiwrnodau, sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad, i wneud gwrthwynebiad ynghylch y cynnig i Weinidogion Cymru, a
  - (d) datgan y ffordd y mae rhaid i wrthwynebiad gael ei wneud.
- (3) Pan mai effaith y gorchymyn y cynigir ei wneud o dan adran 27 fyddai dirymu cydsyniad heneb gofrestredig a roddwyd gan y cytundeb, rhaid i'r hysbysiad o derfyniad arfaethedig ddarparu na chaniateir i'r gwaith y mae'r cydsyniad yn ymwneud ag ef gael ei gyflawni ar ddiwrnod a bennir gan yr hysbysiad nac ar ôl y diwrnod hwnnw.
- (4) Pan mai effaith gorchymyn y cynigir ei wneud o dan adran 27 fyddai eithrio unrhyw waith o gwmpas cydsyniad heneb gofrestredig a roddwyd gan y cytundeb, rhaid i'r hysbysiad o derfyniad arfaethedig ddarparu na chaniateir i'r gwaith yr effeithir arno gael ei gyflawni ar ddiwrnod a bennir gan yr hysbysiad nac ar ôl y diwrnod hwnnw.

*Effaith cyflwyno hysbysiad o derfyniad arfaethedig ar waith awdurdodedig*

- 2 (1) Pan fo hysbysiad o derfyniad arfaethedig yn darparu na chaniateir i'r gwaith y mae cydsyniad heneb gofrestredig yn ymwneud ag ef gael ei gyflawni ar ddiwrnod a bennir gan yr hysbysiad nac ar ôl y diwrnod hwnnw, nid yw'r gwaith hwnnw wedi ei awdurdodi at ddibenion Pennod 3 o Ran 2 o'r Ddeddf hon o ddechrau'r diwrnod hwnnw.
- (2) Pan fo hysbysiad o derfyniad arfaethedig yn darparu na chaniateir i waith a bennir yn yr hysbysiad gael ei gyflawni ar ddiwrnod a bennir gan yr hysbysiad nac ar ôl y diwrnod hwnnw, nid yw'r gwaith penodedig wedi ei awdurdodi at ddibenion Pennod 3 o Ran 2 o'r Ddeddf hon o ddechrau'r diwrnod hwnnw.

SCHEDULE 5  
(introduced by section 27(4))

TERMINATION BY ORDER OF SCHEDULED MONUMENT PARTNERSHIP  
AGREEMENT

PART 1

NOTICE OF PROPOSED TERMINATION

*Requirement to serve notice of proposed termination*

- 1 (1) Before making an order under section 27 terminating a scheduled monument partnership agreement or a provision of such an agreement the Welsh Ministers must serve notice of a proposal to make the order (a “notice of proposed termination”) on –
- (a) the other parties to the agreement, and
  - (b) any other person the Welsh Ministers consider to have an interest in the agreement.
- (2) A notice of proposed termination must –
- (a) include a copy of the order the Welsh Ministers propose to make,
  - (b) set out the reasons for the proposed termination,
  - (c) state that the person served with the notice has 28 days, beginning with the day after the day the notice is served, to make an objection about the proposal to the Welsh Ministers, and
  - (d) state the way in which an objection must be made.
- (3) Where the effect of the order proposed to be made under section 27 would be to revoke a scheduled monument consent granted by the agreement, the notice of proposed termination must provide that the works to which the consent relates must not be carried out on or after a day specified by the notice.
- (4) Where the effect of an order proposed to be made under section 27 would be to exclude any works from the scope of a scheduled monument consent granted by the agreement, the notice of proposed termination must provide that the affected works must not be carried out on or after a day specified by the notice.

*Effect on authorised works of service of notice of proposed termination*

- 2 (1) Where a notice of proposed termination provides that the works to which a scheduled monument consent relates must not be carried out on or after a day specified by the notice, those works are not authorised for the purposes of Chapter 3 of Part 2 of this Act from the beginning of that day.
- (2) Where a notice of proposed termination provides that works specified in the notice must not be carried out on or after a day specified by the notice, the specified works are not authorised for the purposes of Chapter 3 of Part 2 of this Act from the beginning of that day.

- (3) Mae darpariaethau blaenorol y paragraff hwn yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw waith y mae hysbysiad o derfyniad arfaethedig yn effeithio arno –
- pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn o dan adran 27 o fewn y cyfnod o 21 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad o derfyniad arfaethedig ("y cyfnod o 21 mis"), pan gaiff y gorchymyn ei wneud (a phryd hynny, mae'r awdurdodiad yn peidio i'r graddau a ddarperir yn y gorchymyn),
  - pan fo Gweinidogion Cymru, o fewn y cyfnod o 21 mis, yn cyflwyno hysbysiad i bob person y cyflwynwyd yr hysbysiad o derfyniad arfaethedig iddo eu bod wedi penderfynu peidio â gwneud y gorchymyn, ar ddechrau'r diwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y paragraff hwn yn yr hysbysiad, neu
  - mewn unrhyw achos arall, ar ddiwedd y cyfnod o 21 mis.

## RHAN 2

## MYND YMLAEN I WNEUD GORCHYMYN AR ÔL CYFLWYNO HYSBYSIAD

*Gwneud gorchymyn o dan adran 27*

- 3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo hysbysiad o derfyniad arfaethedig wedi ei gyflwyno o dan Ran 1 o'r Atodlen hon.
- (2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y gorchymyn y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef oni bai –
- bod y cyfnod ar gyfer gwneud gwrthwynebiadau i'r cynnig wedi dod i ben heb i wrthwynebiad gael ei wneud gan berson y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo,
  - os gwnaed gwrthwynebiad gan berson o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, fod pob gwrthwynebiad o'r fath wedi ei dynnu'n ôl, neu
  - os gwnaed gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod hwnnw gan berson o'r fath ac nad yw'r gwrthwynebiad wedi ei dynnu'n ôl, fod gofynion is-baragraffau (3) a (4) wedi eu bodloni.
- (3) Mae gofynion yr is-baragraff hwn wedi eu bodloni os yw Gweinidogion Cymru –
- yn peri i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, neu
  - yn rhoi i'r person a wnaeth y gwrthwynebiad gyfle i ymddangos gerbron person a benodir ganddynt a chael gwrandawriad ganddo.
- (4) Mae gofynion yr is-baragraff hwn wedi eu bodloni os yw Gweinidogion Cymru –
- yn ystyried pob gwrthwynebiad a wnaed fel y'i disgrifir yn is-baragraff (2)(c) ac nas tynnwyd yn ôl, a
  - os oes ymchwiliad neu wrandawriad wedi ei gynnal o dan is-baragraff (3), yn ystyried adroddiad y person a'i cynhaliodd.
- (5) Pan fo person yn cymryd y cyfle i ymddangos gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru a chael gwrandawriad ganddo o dan is-baragraff (3)(b), rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle i bob un o'r personau a ganlyn i gael gwrandawriad ar yr un pryd –
- pob person arall y cyflwynwyd yr hysbysiad o derfyniad arfaethedig iddo, a
  - unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.



- (3) The preceding provisions of this paragraph cease to apply in relation to any works affected by a notice of proposed termination –
- (a) where the Welsh Ministers make an order under section 27 within the period of 21 months beginning with the day the notice of proposed termination was served (“the 21 month period”), when the order is made (at which point authorisation ceases to the extent provided in the order),
  - (b) where the Welsh Ministers, within the 21 month period, serve notice on each person on whom the notice of proposed termination was served that they have decided not to make the order, at the beginning of the day specified for the purposes of this paragraph by the Welsh Ministers in the notice, or
  - (c) in any other case, at the end of the 21 month period.

## PART 2

### PROCEEDING TO MAKE AN ORDER AFTER SERVICE OF NOTICE

#### *Making an order under section 27*

- 3 (1) This paragraph applies where a notice of proposed termination has been served under Part 1 of this Schedule.
- (2) The Welsh Ministers may not make the order to which the notice relates unless –
- (a) the period for making objections to the proposal has ended without an objection being made by a person on whom the notice was served,
  - (b) if an objection was made by such a person within that period, all such objections have been withdrawn, or
  - (c) if an objection was made during that period by such a person and the objection has not been withdrawn, the requirements of sub-paragraphs (3) and (4) have been met.
- (3) The requirements of this sub-paragraph are met if the Welsh Ministers –
- (a) cause a local inquiry to be held, or
  - (b) give the person who made the objection an opportunity to appear before and be heard by a person appointed by them.
- (4) The requirements of this sub-paragraph are met if the Welsh Ministers –
- (a) consider each objection made as described in sub-paragraph (2)(c) and not withdrawn, and
  - (b) if an inquiry or hearing has been held under sub-paragraph (3), consider the report of the person who held it.
- (5) Where a person takes the opportunity to appear before and be heard by a person appointed by the Welsh Ministers under sub-paragraph (3)(b), the Welsh Ministers must give each of the following persons the opportunity to be heard on the same occasion –
- (a) every other person served with the notice of proposed termination, and
  - (b) any other person the Welsh Ministers consider appropriate.

- (6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn o dan adran 27 yn rhinwedd is-baragraff (2)(a) neu (b), rhaid gwneud y gorchymyn ar y telerau a nodir gan yr hysbysiad o derfyniad arfaethedig.
- (7) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn o dan adran 27 yn rhinwedd is-baragraff (2)(c), caniateir gwneud y gorchymyn naill ai ar y telerau a nodir gan yr hysbysiad o derfyniad arfaethedig neu gydag addasiadau.

*Hysbysiad ar ôl gwneud gorchymyn*

- 4 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud gorchymyn o dan adran 27, rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r gorchymyn –
- (a) at bob person y cyflwynwyd hysbysiad o derfyniad arfaethedig iddo, a
  - (b) pan –
    - (i) bo ymchwiliad wedi ei gynnal o dan baragraff 3(3)(a), at unrhyw berson arall a roddodd dystiolaeth yn yr ymchwiliad, neu
    - (ii) bo gwrandawriad wedi ei gynnal o dan baragraff 3(3)(b), at unrhyw berson arall y rhoddwyd y cyfle iddo i ymddangos yn y gwrandawriad.

RHAN 3

ATODOL

*Y weithdrefn ar ôl gwrandawriad neu ymchwiliad*

- 5 (1) Rhaid i'r person a benodir i gynnal gwrandawriad neu ymchwiliad o dan baragraff 3 lunio adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ar ôl diwedd y gwrandawriad neu'r ymchwiliad.
- (2) Rhaid i'r adroddiad gynnwys casgliadau ac argymhelliad y person a benodir ynghylch a ddylid gwneud gorchymyn o dan adran 27 (neu resymau'r person a benodir dros beidio â gwneud argymhelliad).

- (6) Where the Welsh Ministers make an order under section 27 by virtue of sub-paragraph (2)(a) or (b), the order must be made on the terms set out by the notice of proposed termination.
- (7) Where the Welsh Ministers make an order under section 27 by virtue of sub-paragraph (2)(c), the order may be made either on the terms set out by the notice of proposed termination or with modifications.

*Notification once order made*

- 4 As soon as practicable after making an order under section 27 the Welsh Ministers must send a copy of the order –
- (a) to every person on whom a notice of proposed termination was served, and
  - (b) where –
    - (i) an inquiry was held under paragraph 3(3)(a), to any other person who gave evidence at the inquiry, or
    - (ii) a hearing was held under paragraph 3(3)(b), to any other person who was given the opportunity to appear at the hearing.

PART 3

SUPPLEMENTARY

*Procedure after hearing or inquiry*

- 5 (1) The person appointed to carry out a hearing or inquiry under paragraph 3 must, after the close of the hearing or inquiry, make a report in writing to the Welsh Ministers.
- (2) The report must include the appointed person's conclusions and recommendation as to whether an order under section 27 ought to be made (or the appointed person's reasons for not making a recommendation).

## ATODLEN 6

(a gyflwynir gan adrannau 10(5), 17(6), 20(3) a 27(4))

## ACHOSION O DAN RAN 2

*Tystiolaeth mewn ymchwiliadau lleol*

- 1 (1) Caiff person a benodir i gynnal ymchwiliad lleol o dan Ran 2 o'r Ddeddf hon, drwy wŷs, ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson –
- (a) bod yn bresennol yn yr ymchwiliad, ar adeg ac mewn man a ddatgenir yn y wŷs, a rhoi tystiolaeth, neu
  - (b) dangos unrhyw ddogfennau sydd ym meddiant y person neu o dan reolaeth y person, sy'n ymwneud ag unrhyw fater sydd o dan sylw yn yr ymchwiliad.
- (2) Caiff y person a benodir i gynnal yr ymchwiliad gymryd tystiolaeth ar lw, ac at y diben hwnnw caiff weinyddu llwon.
- (3) Nid yw gwŷs o dan y paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i berson fod yn bresennol yn yr ymchwiliad oni bai bod treuliau angenrheidiol y person ar gyfer bod yn bresennol yn cael eu talu neu eu cynnig i'r person.
- (4) Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol o dan y paragraff hwn i berson ddangos teitl (nac unrhyw offeryn sy'n ymwneud â theitl) unrhyw dir nad yw'n perthyn i awdurdod lleol.

*Trosedd sy'n ymwneud â methu â chydymffurfio â gwŷs o dan baragraff 1*

- 2 (1) Mae'n drosedd i berson –
- (a) gwrthod cydymffurfio â gofyniad mewn gwŷs o dan baragraff 1 neu fetu'n fwriadol â chydymffurfio â gofyniad o'r fath, neu
  - (b) newid, atal, cuddio neu ddinistrio'n fwriadol ddogfen y mae'n ofynnol i'r person ei dangos, neu y mae'r person yn agored i orfod ei dangos, o dan y paragraff hwnnw.
- (2) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-baragraff (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol neu i'w garcharu am gyfnod nad yw'n hwy na'r uchafswm cyfnod am droseddau diannod, neu i'r ddau.
- (3) Yn is-baragraff (2) ystyr "yr uchafswm cyfnod am droseddau diannod" yw –
- (a) mewn perthynas â throsedd a gyflawnir cyn i adran 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44) ddod i rym, 6 mis;
  - (b) mewn perthynas â throsedd a gyflawnir ar ôl iddi ddod i rym, 51 o wythnosau.

*Costau achosion penodol o dan y Rhan hon*

- 3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â'r achosion a ganlyn –
- (a) adolygiad gan Weinidogion Cymru o dan adran 9 (adolygiadau o benderfyniadau i ychwanegu heneb at y gofrestr etc.);
  - (b) ymchwiliad lleol neu wrandawriad, neu gyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig, o dan adran 17 (penderfynu ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestredig);

## SCHEDULE 6

(introduced by sections 10(5), 17(6), 20(3) and 27(4))

## PROCEEDINGS UNDER PART 2

*Evidence at local inquiries*

- 1 (1) A person appointed to hold a local inquiry under Part 2 of this Act may by summons require any person –
- (a) to attend the inquiry, at a time and place stated in the summons, and to give evidence, or
  - (b) to produce any documents in the person's possession or under the person's control which relate to any matter in question at the inquiry.
- (2) The person appointed to hold the inquiry may take evidence on oath, and for that purpose may administer oaths.
- (3) A summons under this paragraph does not require a person to attend the inquiry unless the person's necessary expenses of attending are paid or offered to the person.
- (4) A person may not be required under this paragraph to produce the title (or any instrument relating to the title) of any land which does not belong to a local authority.

*Offence relating to failure to comply with summons under paragraph 1*

- 2 (1) It is an offence for a person to –
- (a) refuse or deliberately fail to comply with a requirement of a summons under paragraph 1, or
  - (b) deliberately alter, suppress, conceal or destroy a document the person is required, or is liable to be required, to produce under that paragraph.
- (2) A person guilty of an offence under sub-paragraph (1) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale or imprisonment for a term not exceeding the maximum term for summary offences, or both.
- (3) In sub-paragraph (2) "the maximum term for summary offences" means –
- (a) in relation to an offence committed before section 281(5) of the Criminal Justice Act 2003 (c. 44) comes into force, 6 months;
  - (b) in relation to an offence committed after it comes into force, 51 weeks.

*Costs of certain proceedings under this Part*

- 3 (1) This paragraph applies in relation to the following proceedings –
- (a) a review by the Welsh Ministers under section 9 (reviews of decisions to add monument to the schedule etc.);
  - (b) a local inquiry or hearing, or an opportunity to make written representations, under section 17 (determining applications for scheduled monument consent);

- (c) ymchwiliad lleol neu wrandawriad o dan Ran 2 o Atodlen 4 (addasiad neu ddirymiad arfaethedig o gydsyniad heneb gofrestredig).
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod rhaid i'r costau y maent yn mynd iddynt mewn perthynas â'r achos (gan gynnwys costau unrhyw berson a benodir ganddynt i gynnal yr achos) gael eu talu gan unrhyw barti i'r achos a bennir yn y cyfarwyddyd.
- (3) Caniateir i swm y costau yr eir iddynt ac y cyfarwyddir iddynt gael eu talu fel y'i crybwyllir yn is-baragraff (2) gael ei adennill gan Weinidogion Cymru yn ddiannod fel dyled sifil.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â'r achos, wneud gorchmynion ynghylch—
- (a) costau'r partiön i'r achos, a
  - (b) y parti neu'r partiön y mae rhaid iddynt dalu'r costau.
- (5) Caniateir adennill costau sy'n daladwy yn rhinwedd is-baragraff (4) fel pe baent yn daladwy o dan orchymyn gan yr Uchel Lys, os yw'r Uchel Lys yn gorchymyn felly ar gais y person y mae'r costau yn ddyledus iddo.
- (6) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan is-baragraff (4) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson dalu costau parti arall i'r achos oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—
- (a) bod y person wedi ymddwyn yn afresymol mewn perthynas â'r achos, a
  - (b) bod ymddygiad afresymol y person wedi peri i'r parti arall fynd i wariant diangen neu wariant a wastraffwyd.
- (7) Mae cyfeiriadau yn y paragraff hwn at gostau y mae Gweinidogion Cymru yn mynd iddynt yn cynnwys—
- (a) y gost weinyddol gyfan y maent yn mynd iddi mewn cysylltiad â'r achos, gan gynnwys yn benodol swm rhesymol y maent yn ei benderfynu mewn cysylltiad â chostau cyffredinol staff a gorbenion Llywodraeth Cymru;
  - (b) costau y maent (neu y mae personau a benodir ganddynt) yn mynd iddynt mewn cysylltiad ag achos nad yw'n digwydd.

*Costau adolygiadau a gynhelir o dan adran 9 gan berson a benodir*

- 4 Pan fo adolygiad o dan adran 9 yn cael ei gynnal gan berson a benodir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (3) o'r adran honno, mae gan y person a benodir yr un pwerau mewn perthynas â'r adolygiad ag sydd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 3.

- (c) a local inquiry or hearing under Part 2 of Schedule 4 (proposed modification or revocation of scheduled monument consent).
- (2) The Welsh Ministers may direct that the costs incurred by them in relation to the proceedings (including the costs of any person appointed by them to hold the proceedings) must be paid by any party to the proceedings specified in the direction.
- (3) The amount of the costs incurred and directed to be paid as mentioned in sub-paragraph (2) may be recovered by the Welsh Ministers summarily as a civil debt.
- (4) The Welsh Ministers may, in relation to the proceedings, make orders about –
  - (a) the costs of the parties to the proceedings, and
  - (b) the party or parties who must pay the costs.
- (5) Costs payable by virtue of sub-paragraph (4) may be recovered as if they were payable under an order of the High Court, if the High Court so orders on the application of the person to whom the costs are due.
- (6) The Welsh Ministers may not make an order under sub-paragraph (4) requiring a person to pay the costs of another party to the proceedings unless they are satisfied that –
  - (a) the person has behaved unreasonably in relation to the proceedings, and
  - (b) the person's unreasonable behaviour has caused the other party to incur unnecessary or wasted expenditure.
- (7) References in this paragraph to costs incurred by the Welsh Ministers include –
  - (a) the entire administrative cost incurred by them in connection with the proceedings, including in particular a reasonable amount that they determine in respect of general staff costs and overheads of the Welsh Government;
  - (b) costs incurred by them (or by persons appointed by them) in respect of proceedings that do not take place.

*Costs of reviews held under section 9 by appointed person*

- 4 Where a review under section 9 is carried out by a person appointed by the Welsh Ministers under subsection (3) of that section, the appointed person has the same powers in relation to the review as the Welsh Ministers have under paragraph 3.

## ATODLEN 7

(a gyflwynir gan adrannau 79(6) a 85(4))

DIWEDD GWARCHODAETH INTERIM NEU RESTRU DROS DRO AR GYFER  
ADEILADAU*Cyflwyniad*

1 Mae'r Atodlen hon yn gymwys –

- (a) pan fo gwarchodaeth interim yn dod i ben mewn perthynas ag adeilad oherwydd bod Gweinidogion Cymru yn cyflwyno hysbysiad o dan adran 79(5)(b) eu bod wedi penderfynu peidio â rhestru'r adeilad, neu
- (b) pan fo rhestru dros dro yn dod i ben mewn perthynas ag adeilad –
  - (i) ar ddiwedd y cyfnod o 6 mis a grybwyllir yn adran 85(1), neu
  - (ii) oherwydd bod Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad o dan adran 85(3) nad ydynt yn bwriadu ymgynghori ar gynnig i restru'r adeilad.

*Atebolrwydd troseddol*

2 Nid yw'r ffaith nad yw'r adeilad yn cael ei drin mwyach fel pe bai'n adeilad rhestredig yn effeithio ar atebolrwydd unrhyw berson i gael ei erlyn a'i gosbi am drosedd o dan y Ddeddf hon a gyflawnwyd tra oedd yr adeilad yn cael ei drin fel adeilad rhestredig.

*Cydsyniad adeilad rhestredig*

3 Mae unrhyw achos ynghylch cais am gydsyniad adeilad rhestredig sy'n ymwneud â'r adeilad, neu sy'n deillio o gais o'r fath, yn darfod; ac mae unrhyw gydsyniad o'r fath yn peidio â chael effaith.

*Hysbysiadau stop dros dro*

4 Mae unrhyw hysbysiad stop dros dro sy'n ymwneud â'r adeilad yn peidio â chael effaith.

*Hysbysiadau gorfodi*

- 5 (1) Mae unrhyw hysbysiad gorfodi sy'n ymwneud â'r adeilad yn peidio â chael effaith.
- (2) Mae unrhyw achos ynghylch apêl yn erbyn hysbysiad o'r fath yn darfod.
- (3) Er gwaethaf is-baragraff (1), mae adran 132(1) i (6) yn parhau i gael effaith mewn perthynas –
  - (a) ag unrhyw dreuliau yr eir iddynt gan awdurdod cynllunio neu Weinidogion Cymru, neu gan berchennog neu feddiannydd, fel y'i crybwyllir yn yr adran honno, a
  - (b) ag unrhyw symiau a delir o ganlyniad i'r treuliau hynny.

*Gwaharddebau*

6 Mae unrhyw achos ynghylch cais am waharddeb o dan adran 135 sy'n ymwneud â'r adeilad yn darfod.



SCHEDULE 7

(introduced by sections 79(6) and 85(4))

END OF INTERIM PROTECTION OR TEMPORARY LISTING FOR BUILDINGS

*Introduction*

- 1 This Schedule applies where –
- (a) interim protection ends in relation to a building because the Welsh Ministers serve notice under section 79(5)(b) that they have decided not to list the building, or
  - (b) temporary listing ends in relation to a building –
    - (i) at the end of the 6-month period mentioned in section 85(1), or
    - (ii) because the Welsh Ministers give notification under section 85(3) that they do not intend to consult on a proposal to list the building.

*Criminal liability*

- 2 The fact that the building is no longer treated as if it were a listed building does not affect the liability of any person to be prosecuted and punished for an offence under this Act committed while the building was treated as a listed building.

*Listed building consent*

- 3 Any proceedings on or arising out of an application for listed building consent relating to the building lapse; and any such consent ceases to have effect.

*Temporary stop notices*

- 4 Any temporary stop notice relating to the building ceases to have effect.

*Enforcement notices*

- 5
- (1) Any enforcement notice relating to the building ceases to have effect.
  - (2) Any proceedings on an appeal against such a notice lapse.
  - (3) Despite sub-paragraph (1), section 132(1) to (6) continue to have effect in relation to –
    - (a) any expenses incurred by a planning authority or the Welsh Ministers, or by an owner or occupier, as mentioned in that section, and
    - (b) any amounts paid on account of those expenses.

*Injunctions*

- 6 Any proceedings on an application for an injunction under section 135 relating to the building lapse.

## ATODLEN 8

*(a gyflwynir gan adran 107(3))*Y WEITHDREFN AR GYFER GORCHMYNION SY'N ADDASU NEU'N DIRYMU  
CYDSYNIAD ADEILAD RHESTREDIG

## RHAN 1

## GORCHMYNION A WNEIR GAN AWDURDODAU CYNLLUNIO

*Yr amgylchiadau pan fydd gorchmynion yn cymryd effaith*

- 1 Nid yw gorchmyn o dan adran 107 a wneir gan awdurdod cynllunio ond yn cymryd effaith—
- (a) os caiff ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2, neu
  - (b) yn unol â pharagraff 3.

*Y weithdrefn ar gyfer cadarnhau gorchmynion gan Weinidogion Cymru*

- 2 (1) Pan fo awdurdod cynllunio yn cyflwyno gorchmyn o dan adran 107 i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, rhaid iddo gyflwyno hysbysiad o gyflwyno'r gorchmyn—
- (a) i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr adeilad rhestredig y mae'r gorchmyn yn ymwneud ag ef, a
  - (b) i unrhyw berson arall y mae'n meddwl y bydd y gorchmyn yn effeithio arno.
- (2) Rhaid i'r hysbysiad bennu o fewn pa gyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am gyfle i ymddangos gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru a chael gwrandawriad ganddo.
- (3) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, cyn cadarnhau'r gorchmyn rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw a'r awdurdod cynllunio.
- (4) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (2) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.
- (5) Caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r gorchmyn gydag addasiadau neu hebddynt.

*Y weithdrefn i orchmynion gymryd effaith heb gadarnhad*

- 3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan—
- (a) bo awdurdod cynllunio wedi gwneud gorchmyn o dan adran 107, a
  - (b) bo'r personau a ganlyn wedi hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig nad ydynt yn gwrthwynebu'r gorchmyn—
    - (i) pob perchennog a phob meddiannydd ar yr adeilad rhestredig y mae'r gorchmyn yn ymwneud ag ef, a
    - (ii) pob person arall y mae'r awdurdod yn meddwl y bydd y gorchmyn yn effeithio arno.

SCHEDULE 8  
(introduced by section 107(3))

PROCEDURE FOR ORDERS MODIFYING OR REVOKING LISTED BUILDING  
CONSENT

PART 1

ORDERS MADE BY PLANNING AUTHORITIES

*Circumstances in which orders take effect*

- 1 An order under section 107 made by a planning authority takes effect only –
- (a) if it is confirmed by the Welsh Ministers under paragraph 2, or
  - (b) in accordance with paragraph 3.

*Procedure for confirmation of orders by Welsh Ministers*

- 2 (1) Where a planning authority submits an order under section 107 to the Welsh Ministers for confirmation, it must serve notice of the submission of the order on –
- (a) every owner and occupier of the listed building to which the order relates, and
  - (b) any other person it thinks will be affected by the order.
- (2) The notice must specify the period within which a person on whom it is served may make a request in writing to the Welsh Ministers for an opportunity to appear before and be heard by a person appointed by the Welsh Ministers.
- (3) If a person on whom the notice is served makes such a request within that period, before confirming the order the Welsh Ministers must give such an opportunity to that person and the planning authority.
- (4) The period specified under sub-paragraph (2) must be at least 28 days beginning with the day after the day the notice is served.
- (5) The Welsh Ministers may confirm the order with or without modifications.

*Procedure for orders to take effect without confirmation*

- 3 (1) This paragraph applies where –
- (a) a planning authority has made an order under section 107, and
  - (b) the following persons have notified the authority in writing that they do not object to the order –
    - (i) every owner and occupier of the listed building to which the order relates, and
    - (ii) every other person the authority thinks will be affected by the order.

- (2) Rhaid i'r awdurdod cynllunio (yn lle cyflwyno'r gorchymyn i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau) –
- cyhoeddi hysbysiad yn y ffordd a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru fod y gorchymyn wedi ei wneud,
  - cyflwyno copi o'r hysbysiad i'r personau a grybwyllir yn is-baragraff (1)(b), ac
  - anfon copi o'r hysbysiad at Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 3 diwrnod ar ôl y diwrnod y'i cyhoeddir.
- (3) Rhaid i'r hysbysiad bennu –
- o fewn pa gyfnod y caiff personau y mae'r gorchymyn yn effeithio arnynt roi hysbysiad i Weinidogion Cymru eu bod am i'r gorchymyn gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau o dan y weithdrefn ym mharagraff 2;
  - y cyfnod, os na roddir hysbysiad o'r fath ac nad yw Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod rhaid cyflwyno'r gorchymyn iddynt i'w gadarnhau, y bydd y gorchymyn yn cymryd effaith heb gael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru ar ei ddiwedd.
- (4) Os, ar ddiwedd y cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(a) –
- nad yw unrhyw berson y mae'r gorchymyn yn effeithio arno wedi rhoi hysbysiad i Weinidogion Cymru fel y'i crybwyllir yn is-baragraff (3)(a), a
  - nad yw Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo bod rhaid cyflwyno'r gorchymyn iddynt i'w gadarnhau,
- mae'r gorchymyn yn cymryd effaith ar ddiwedd y cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(b).
- (5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(a) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y caiff yr hysbysiad o wneud y gorchymyn ei gyhoeddi am y tro cyntaf.
- (6) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(b) fod o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl diwedd y cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3)(a).

## RHAN 2

### GORCHMYNION A WNEIR GAN WEINIDOGION CYMRU

#### *Y weithdrefn i'w dilyn cyn gwneud gorchymyn*

- 4 (1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan adran 107 heb ymgynghori â'r awdurdod cynllunio y mae'r adeilad rhestredig y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef yn ei ardal.
- (2) Cyn gwneud gorchymyn o dan adran 107 rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyflwyno hysbysiad o'r gorchymyn arfaethedig –
- i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr adeilad, a
  - i unrhyw berson arall y maent yn meddwl y bydd y gorchymyn yn effeithio arno.
- (3) Rhaid i'r hysbysiad bennu o fewn pa gyfnod y caiff person y'i cyflwynir iddo wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am gyfle i ymddangos gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru a chael gwrandawriad ganddo.

- (2) The planning authority must (instead of submitting the order to the Welsh Ministers for confirmation) –
  - (a) publish notice of the making of the order in the way specified in regulations made by the Welsh Ministers,
  - (b) serve a copy of the notice on the persons mentioned in sub-paragraph (1)(b), and
  - (c) send a copy of the notice to the Welsh Ministers not later than 3 days after the day it is published.
- (3) The notice must specify –
  - (a) the period within which persons affected by the order may give notice to the Welsh Ministers that they want the order to be submitted to the Welsh Ministers for confirmation under the procedure in paragraph 2;
  - (b) the period at the end of which, if no such notice is given and the Welsh Ministers do not direct that the order must be submitted to them for confirmation, the order will take effect without being confirmed by the Welsh Ministers.
- (4) If at the end of the period specified under sub-paragraph (3)(a) –
  - (a) no person affected by the order has given notice to the Welsh Ministers as mentioned in sub-paragraph (3)(a), and
  - (b) the Welsh Ministers have not directed that the order must be submitted to them for confirmation,the order takes effect at the end of the period specified under sub-paragraph (3)(b).
- (5) The period specified under sub-paragraph (3)(a) must be at least 28 days beginning with the day after the day the notice of the making of the order is first published.
- (6) The period specified under sub-paragraph (3)(b) must be at least 14 days after the end of the period specified under sub-paragraph (3)(a).

## PART 2

### ORDERS MADE BY THE WELSH MINISTERS

#### *Procedure to be followed before making order*

- 4 (1) The Welsh Ministers must not make an order under section 107 without consulting the planning authority in whose area the listed building to which the order relates is situated.
- (2) Before making an order under section 107 the Welsh Ministers must also serve notice of the proposed order on –
  - (a) every owner and occupier of the building, and
  - (b) any other person they think will be affected by the order.
- (3) The notice must specify the period within which a person on whom it is served may make a request in writing to the Welsh Ministers for an opportunity to appear before and be heard by a person appointed by the Welsh Ministers.

- (4) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, cyn gwneud y gorchymyn rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw a'r awdurdod cynllunio.
- (5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (3) fod o leiaf 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad.

- (4) If a person on whom the notice is served makes such a request within that period, before making the order the Welsh Ministers must give such an opportunity to that person and the planning authority.
- (5) The period specified under sub-paragraph (3) must be at least 28 days beginning with the day after the day the notice is served.

ATODLEN 9  
(a gyflwynir gan adran 112)

CAMAU GWEITHREDU YN DILYN CYFLWYNO HYSBYSIAD PRYNU

*Ymateb i hysbysiad prynu gan awdurdod cynllunio*

- 1 (1) Pan fo person wedi cyflwyno hysbysiad prynu i awdurdod cynllunio, rhaid i'r awdurdod gyflwyno hysbysiad derbyn neu hysbysiad gwrthod i'r person.
- (2) Mae hysbysiad derbyn yn hysbysiad sy'n datgan naill ai –
  - (a) bod yr awdurdod cynllunio yn fodlon cydymffurfio â'r hysbysiad prynu, neu
  - (b) bod awdurdod lleol arall neu ymgymwrwr statudol a bennir yn yr hysbysiad derbyn wedi cytuno i gydymffurfio â'r hysbysiad prynu.
- (3) Mae hysbysiad gwrthod yn hysbysiad sy'n datgan –
  - (a) nad yw'r awdurdod cynllunio, am resymau a bennir yn yr hysbysiad, yn fodlon cydymffurfio â'r hysbysiad prynu ac nad yw wedi dod o hyd i unrhyw awdurdod lleol arall neu ymgymwrwr statudol sy'n fodlon cydymffurfio ag ef, a
  - (b) bod yr awdurdod cynllunio wedi anfon copïau o'r hysbysiad prynu a'r hysbysiad gwrthod at Weinidogion Cymru.
- (4) Rhaid cyflwyno hysbysiad derbyn neu hysbysiad gwrthod cyn diwedd 3 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad prynu.
- (5) Pan fo'r awdurdod cynllunio yn cyflwyno hysbysiad derbyn i berson, mae'r awdurdod hwnnw neu (yn achos hysbysiad sy'n dod o fewn is-baragraff (2)(b)) yr awdurdod lleol arall neu'r ymgymwrwr statudol a bennir yn yr hysbysiad i'w drin –
  - (a) fel pe bai wedi ei awdurdodi o dan adran 137 i gaffael buddiant y person yn orfodol, a
  - (b) fel pe bai wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â'r buddiant hwnnw ar y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad derbyn.
- (6) Cyn cyflwyno hysbysiad gwrthod i berson, rhaid i'r awdurdod cynllunio anfon at Weinidogion Cymru –
  - (a) copi o'r hysbysiad gwrthod, a
  - (b) copi o'r hysbysiad prynu.
- (7) Ni chaniateir i hysbysiad i drafod telerau a drinnir fel pe bai wedi ei gyflwyno yn rhinwedd is-baragraff (5)(b) gael ei dynnu'n ôl o dan adran 31 o Ddeddf Digollediad Tir 1961 (p. 33).

*Camau gweithredu i'w cymryd gan Weinidogion Cymru os caiff hysbysiad prynu ei wrthod gan awdurdod cynllunio*

- 2 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo copi o hysbysiad prynu yn cael ei anfon at Weinidogion Cymru o dan baragraff 1(6).
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru gadarnhau'r hysbysiad prynu os ydynt wedi eu bodloni –
  - (a) bod y setiau o amodau yn adran 109 wedi eu bodloni mewn perthynas â'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, a



SCHEDULE 9  
(introduced by section 112)

ACTION FOLLOWING SERVICE OF PURCHASE NOTICE

*Response to purchase notice by planning authority*

- 1 (1) Where a person has served a purchase notice on a planning authority, the authority must serve an acceptance notice or rejection notice on the person.
- (2) An acceptance notice is a notice stating either –
  - (a) that the planning authority is willing to comply with the purchase notice, or
  - (b) that another local authority or statutory undertaker specified in the acceptance notice has agreed to comply with the purchase notice.
- (3) A rejection notice is a notice stating –
  - (a) that for reasons specified in the notice, the planning authority is not willing to comply with the purchase notice and has not found any other local authority or statutory undertaker willing to comply with it, and
  - (b) that the planning authority has sent copies of the purchase notice and rejection notice to the Welsh Ministers.
- (4) An acceptance notice or rejection notice must be served before the end of 3 months beginning with the day the purchase notice was served.
- (5) Where the planning authority serves an acceptance notice on a person, that authority or (in the case of a notice falling within sub-paragraph (2)(b)) the other local authority or statutory undertaker specified in the notice is to be treated –
  - (a) as being authorised under section 137 to acquire the person’s interest compulsorily, and
  - (b) as having served a notice to treat in respect of that interest on the day the acceptance notice is served.
- (6) Before serving a rejection notice on a person, the planning authority must send the Welsh Ministers –
  - (a) a copy of the rejection notice, and
  - (b) a copy of the purchase notice.
- (7) A notice to treat which is treated as having been served by virtue of sub-paragraph (5)(b) may not be withdrawn under section 31 of the Land Compensation Act 1961 (c. 33).

*Action to be taken by Welsh Ministers on rejection of purchase notice by planning authority*

- 2 (1) This paragraph applies where a copy of a purchase notice is sent to the Welsh Ministers under paragraph 1(6).
- (2) The Welsh Ministers must confirm the purchase notice if they are satisfied –
  - (a) that the sets of conditions in section 109 are met in relation to the land to which the notice relates, and

- (b) bod y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn cynnwys yr holl dir sy'n cydffinio â'r adeilad rhestredig neu sy'n gyfagos iddo y maent yn ystyried bod ei angen –
- (i) ar gyfer diogelu'r adeilad neu ei amwynderau,
  - (ii) ar gyfer darparu neu hwyluso mynediad iddo, neu
  - (iii) ar gyfer ei reolaethu'n briodol neu ei reoli'n briodol,
- ond mae hyn yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ganlyn.
- (3) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r setiau o amodau yn adran 109 wedi eu bodloni ond mewn perthynas â rhan o'r tir, rhaid iddynt gadarnhau'r hysbysiad mewn perthynas â'r rhan honno yn unig.
- (4) Yn lle cadarnhau'r hysbysiad prynu, caiff Gweinidogion Cymru –
- (a) yn achos hysbysiad a gyflwynir o ganlyniad i wrthod cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw waith, roi cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer y gwaith;
  - (b) yn achos hysbysiad a gyflwynir o ganlyniad i roi cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw waith yn ddarostyngedig i amodau, amrywio neu ddileu'r amodau i'r graddau y maent yn ystyried bod hynny yn angenrheidiol i alluogi gwneud y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn ddefnyddiadwy drwy gyflawni'r gwaith;
  - (c) yn achos hysbysiad a gyflwynir o ganlyniad i orchymyn o dan adran 107 sy'n dirymu cydsyniad adeilad rhestredig, ddirymu'r gorchymyn;
  - (d) yn achos hysbysiad a gyflwynir o ganlyniad i orchymyn o dan yr adran honno sy'n addasu cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw waith drwy osod amodau, amrywio neu ddileu'r amodau i'r graddau y maent yn ystyried bod hynny yn angenrheidiol i alluogi gwneud y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef yn ddefnyddiadwy drwy gyflawni'r gwaith.
- (5) Mae is-baragraff (6) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried y gellid gwneud y tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, neu unrhyw ran ohono, yn ddefnyddiadwy o fewn amser rhesymol drwy gyflawni –
- (a) unrhyw waith arall y dylai cydsyniad adeilad rhestredig gael ei roi ar ei gyfer, neu
  - (b) unrhyw ddatblygiad y dylai caniatâd cynllunio gael ei roi ar ei gyfer.
- (6) Yn lle cadarnhau'r hysbysiad prynu mewn perthynas â'r tir neu'r rhan honno ohono, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo, os gwneir cais am gydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer y gwaith hwnnw, neu am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad hwnnw, fod rhaid ei roi.
- (7) Wrth gadarnhau hysbysiad prynu caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gan roi sylw i'r defnydd tebygol yn y pen draw o'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, addasu'r hysbysiad mewn perthynas â'r holl dir neu unrhyw ran ohono drwy roi awdurdod lleol arall neu ymgwymerwr statudol yn lle'r awdurdod cynllunio y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo.
- (8) Os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni fel a grybwyllir yn is-baragraff (2) mewn perthynas â hysbysiad prynu, rhaid iddynt wrthod cadarnhau'r hysbysiad.
- (9) Yn y paragraff hwn mae cyfeiriadau at y tir y mae hysbysiad prynu yn ymwneud ag ef yn gyfeiriadau at yr adeilad rhestredig a'r tir cysylltiedig (os oes tir cysylltiedig) y cyflwynir yr hysbysiad mewn cysylltiad ag ef.

- (b) that the land to which the notice relates includes all of the land adjoining or adjacent to the listed building that they consider is required –
  - (i) for preserving the building or its amenities,
  - (ii) for providing or facilitating access to it, or
  - (iii) for its proper control or management,

but this is subject to the following provisions.

- (3) If the Welsh Ministers are satisfied that the sets of conditions in section 109 are met only in relation to part of the land, they must confirm the notice only in relation to that part.
- (4) Instead of confirming the purchase notice, the Welsh Ministers may –
  - (a) in the case of a notice served in consequence of a refusal of listed building consent for any works, grant listed building consent for the works;
  - (b) in the case of a notice served in consequence of a grant of listed building consent for any works subject to conditions, vary or remove the conditions so far as they consider necessary to enable the land to which the notice relates to be made usable by carrying out the works;
  - (c) in the case of a notice served in consequence of an order under section 107 revoking listed building consent, revoke the order;
  - (d) in the case of a notice served in consequence of an order under that section modifying listed building consent for any works by imposing conditions, vary or remove the conditions so far as they consider necessary to enable the land to which the notice relates to be made usable by carrying out the works.
- (5) Sub-paragraph (6) applies if the Welsh Ministers consider that the land to which the notice relates, or any part of it, could be made usable within a reasonable time by carrying out –
  - (a) any other works for which listed building consent ought to be granted, or
  - (b) any development for which planning permission ought to be granted.
- (6) Instead of confirming the purchase notice in relation to the land or that part of it, the Welsh Ministers may direct that, if an application is made for listed building consent for those works, or for planning permission for that development, it must be granted.
- (7) In confirming a purchase notice the Welsh Ministers may, if they consider it appropriate having regard to the probable ultimate use of the land to which the notice relates, modify the notice in relation to all or any part of the land by substituting another local authority or statutory undertaker for the planning authority on which the notice was served.
- (8) If the Welsh Ministers are not satisfied as mentioned in sub-paragraph (2) in relation to a purchase notice, they must refuse to confirm the notice.
- (9) In this paragraph references to the land to which a purchase notice relates are to the listed building and associated land (if any) in respect of which the notice is served.

*Y weithdrefn cyn i Weinidogion Cymru gymryd camau gweithredu mewn perthynas â hysbysiad prynu*

- 3 (1) Cyn cymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â hysbysiad prynu o dan baragraff 2, rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad o'u camau gweithredu arfaethedig—
- (a) i'r person a gyflwynodd yr hysbysiad prynu,
  - (b) i'r awdurdod cynllunio y cyflwynwyd yr hysbysiad prynu iddo, ac
  - (c) os ydynt yn cynnig rhoi unrhyw awdurdod lleol arall neu ymgymwrwr statudol yn lle'r awdurdod cynllunio, i'r awdurdod lleol arall neu'r ymgymwrwr statudol.
- (2) Rhaid i hysbysiad o dan is-baragraff (1) bennu o fewn pa gyfnod y caiff unrhyw un neu ragor o'r personau y'i cyflwynir iddynt wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am gyfle i ymddangos gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru a chael gwrandawriad ganddo.
- (3) Os yw person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn gwneud cais o fewn y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru roi cyfle o'r fath i'r person hwnnw cyn iddynt gymryd unrhyw gamau gweithredu mewn perthynas â'r hysbysiad prynu o dan baragraff 2.
